Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2024-25

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cynnwys


Trosolwg y Bwrdd 03-04

Ynglŷn â Medr 05-06

Dadansoddiad o Berfformiad 07-29

Adroddiad Ariannol 30-32

Adroddiad Atebolrwydd 33-87

# Trosolwg y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

## (Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar berfformiad)

Roedd creu Medr yn nodi dechrau dull newydd yng Nghymru. Rydym yn ymrwymedig i chwarae ein rhan i greu dyfodol cadarnhaol i'n pobl, ein cymunedau, ein heconomi a'n diwylliant.



**Yr Athro Fonesig Julie Lydon**
Cadeirydd



**James Owen**
Prif Weithredwr

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg ar ein diben a'n huchelgeisiau a diweddariadau am yr hyn yr ydym wedi bod yn gweithio i'w gyflawni, gan hefyd amlinellu'r risgiau a'r heriau yr ydym ni, a'r sector addysg drydyddol ac ymchwil, yn ymgodymu â hwy.

**Fe wnaethom nodi ein gweledigaeth uchelgeisiol, hirdymor ar gyfer y sector yn ein Cynllun Strategol cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â dysgwyr a rhanddeiliaid.**

Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda'n partneriaid i droi ein huchelgeisiau ar y cyd yn realiti. Yn ein blwyddyn gyntaf o fod yn weithredol ni fydd yn syndod mai cyflawni proses bontio esmwyth, gan sicrhau parhad yn yr oruchwyliaeth ar addysg drydyddol fu ein blaenoriaeth drosfwaol.

> Rydym yn deall yr heriau y mae'r sector yn brwydro yn eu herbyn ac rydym yn deall y cyd-destun cyllidol. Rydym felly wedi canolbwyntio ar osod y sylfeini i sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr dibynadwy.

Mae ein gweithlu yn Medr, gyda chefnogaeth PCS, ein hundeb llafur, yn haeddu cydnabyddiaeth arbennig yma am y ffordd y maent wedi cofleidio newid gan barhau i gyflawni dros ddysgwyr a'r sector.

**Er bod ein Cynllun Strategol wedi cael ei gwblhau tuag at ddiwedd y cyfnod adrodd, rydym wedi defnyddio'r Nodau Sefydlu a Strategol fel y templed i ddarparu trosolwg o'n perfformiad yn yr adroddiad hwn.**

Mae hyn yn helpu i ddangos ehangder y gweithgarwch a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod pontio hwn. Dros amser, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar effaith y gwaith a gyflawnir gennym yn erbyn dangosyddion y cytunwyd arnynt, gan ddarparu tryloywder ar gynnydd tuag at ein huchelgeisiau hirdymor.

Wrth i ni gau ein cyfnod adrodd cyntaf, rydym yn anhygoel o falch o fyfyrio ar ein cyflawniadau dros gyfnod o bontio a thrawsnewid. Yn yr wyth mis cyntaf y buom yn weithredol, fe wnaethom fuddsoddi dros £686m yn y sector; meithrin perthnasoedd trwy ymgysylltu ystyrlon; a chynnal goruchwyliaeth reoleiddiol ar ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru.

Ein dull trwy gydol y cyfnod hwn fu nid ailwampio systemau na phrosesau presennol, ond dysgu, cydweithio a chynnwys pawb yn y broses o siapio ein cyfeiriad yn y dyfodol, gan osod safonau uchel i ni ein hunain ar gyfer cyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol ac ariannol yn effeithiol. Adlewyrchir y dull hwn yn glir yn ein gwerthoedd sefydliadol.

Mae'r sylfeini a osodwyd gennym yn ein rhoi mewn sefyllfa wych i gyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Strategol. Rydym yn gweld hadau hyn yn ein gwaith bob dydd, gan gofio, y tu ôl i bob punt yr ydym yn ei gwario, pob polisi yr ydym yn ei ddatblygu a phob ystadegyn yr ydym yn ei gyhoeddi, y ceir dysgwr.

Byddwn yn parhau i gydweithio i gyflawni sector mwy cydgysylltiedig a chynhwysol; meithrin perthnasoedd yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr; a sicrhau bod y system yn diwallu anghenion ein cymdeithas a'n heconomi, nid dim ond yn awr, ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hefyd. Ac, efallai yn bwysicaf oll, byddwn yn parhau i weithio'n ddiflino i helpu pob dysgwr i ddod o hyd i'w lwybr.

**Yr Athro Fonesig Julie Lydon a James Owen**

"Yn yr wyth mis cyntaf y buom yn weithredol, fe wnaethom fuddsoddi dros £686m yn y sector; meithrin perthnasoedd trwy ymgysylltu ystyrlon; a chynnal goruchwyliaeth reoleiddiol ar ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru."

# Ynglŷn â Medr

Medr, Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru, yw'r corff hyd braich sy'n gyfrifol am gyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil o 1 Awst 2024. Mae hyn yn cynnwys addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau, chweched dosbarth mewn ysgolion, dysgu oedolion yn y gymuned, ac ymchwil ac arloesi a gyllidir gan y Llywodraeth.

**Ni yw'r sefydliad cyntaf o'i fath yn y DU, ac rydym yn un o'r cyntaf yn fyd-eang, i gyfuno'r cylch gwaith hwn ar draws y sector trydyddol.**

## Darparwyr Addysg Drydyddol a Gyllidir ac a Reoleiddir gan Medr

**9** **prifysgol**
(gan gynnwys y Brifysgol Agored)

**13** **o golegau addysg bellach**

**22** **o awdurdodau lleol**
â chyfrifoldeb am ddarpariaeth chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned

Mae cyllid Medr i awdurdodau lleol yn cefnogi **133 o leoliadau chweched dosbarth mewn ysgolion**

**4** **darparwr hyfforddiant prentisiaethau preifat**

# Ein gweledigaeth

Rydym yn cydweithio'n agos gyda'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu'n greiddiol iddi.

# Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn helpu i lywio diwylliant ein sefydliad:

### Dysgu

Credwn fod dysgu'n greiddiol i bopeth a wnawn.
Credwn fod chwilfrydedd yn hybu arloesi ac yn helpu i ehangu ein gorwelion.

### Cydweithio

Gallwn gyflawni llawer mwy gyda'n gilydd nag y gallem byth ei wneud ar ein pennau ein hunain.

### Cynnwys pawb

Rydym yn frwd dros gynhwysiant, gan geisio creu'r amodau cywir i bawb gyflawni eu llawn botensial.

### Rhagori


Mae gennym ddyheadau uchel ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru ac rydym wastad yn gosod safonau uchel i ni ein hunain er mwyn bod y gorau y gallwn fod.

# Dadansoddiad o Berfformiad

**Ochr yn ochr â sicrhau pontio esmwyth i sefydliad a chylch gwaith newydd, mae cryn dipyn o'n gwaith dros y cyfnod adrodd wedi canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth dros y tymor canolig a hir.**

Ar 12 Mawrth 2025 fe gyhoeddom ni ein Cynllun Strategol cyntaf, gan ystyried datganiad Llywodraeth Cymru o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi, yn ogystal â'r un ar ddeg o ddyletswyddau strategol a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Mae ein Cynllun Strategol yn disgrifio nod sefydlu a phum nod strategol (ein hamcanion llesiant) y bwriedir mynd ar eu trywydd dros y pum mlynedd nesaf wrth inni wireddu ein gweledigaeth a'n huchelgeisiau hirdymor ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

**Yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae Medr wedi gosod y sylfeini ar gyfer cyrraedd y nodau yn ein Cynllun Strategol. Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r gweithgareddau allweddol hyn a sut y maent yn galluogi cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau strategol.**



# **Astudiaeth Achos:** Gwneud llais y dysgwr yn ganolog i Gynllun Strategol Medr

**Fel cam cyntaf i sicrhau bod dysgwyr yn ganolog i bopeth a wnawn, fe wnaethom gomisiynu cyfres o grwpiau ffocws yn hydref 2024 fel rhan o'n ymgynghoriad ynghylch ein Cynllun Strategol. Fe wnaeth Beaufort Research wahodd dysgwyr o bob rhan o'r sector trydyddol i'r grwpiau i helpu i roi lliw a llun i'r Cynllun ac adnabod sut yr oedd dysgwyr yn meddwl y gallai Medr wneud gwahaniaeth.**

### Nod yr ymchwil oedd:

- Deall yr hyn sy'n bwysig i ddysgwyr ar eu llwybr trwy'r sector trydyddol.
- Archwilio pa fecanweithiau fyddai'n effeithiol yn nhyb dysgwyr i sicrhau bod Medr yn gwrando ar lais y dysgwr ym mhob agwedd ar ei waith.
- Ysgogi adborth ar nodau strategol drafft Medr.
- Deall pa newidiadau hoffai dysgwyr eu gweld o ganlyniad i gylch gwaith ehangach Medr.

Roedd yr ymchwil hon yn gam cyntaf tuag at integreiddio llais y dysgwr ym mhrosesau cynllunio a phenderfynu Medr.

Mewn chwe grŵp ffocws gwelwyd 47 o ddysgwyr o 17 o ddarparwyr addysg drydyddol yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr, yr oedd gan nifer ohonynt rolau cynrychioli megis cynrychiolwyr cyrsiau, swyddogion undebau llafur neu fyfyrwyr-lywodraethwyr.

Fe wnaeth y grwpiau ffocws ddangos y safbwyntiau cyfoethog sy'n gallu dod i'r amlwg o ymgysylltu â dysgwyr, ynghyd â rhai o heriau creu negeseuon sy'n taro tant gyda dysgwyr o leoliadau a chefndiroedd amrywiol.

Roeddent yn croesawu'r ffocws cryf ar anghenion a phrofiadau dysgwyr yn y Cynllun Strategol, ac fe wnaethant erfyn am symleiddio geiriad y nodau fel eu bod yn taro tant yn well gyda dysgwyr.

> "Fe wnaeth cyfranogwyr amlygu nifer o enghreifftiau o arfer da o ran bod eu darparwr yn gwrando arnynt ac yn eu cynnwys mewn prosesau penderfynu, ac roeddent yn teimlo'n hyderus ar y cyfan bod eu lleisiau'n cael eu clywed."

**Fe wnaeth yr ymchwil hefyd amlygu amrywiaeth dysgwyr yn y sector addysg drydyddol a'r llu o feysydd a oedd o ddiddordeb iddynt, gan gynnwys:**

- Canfyddiad nad oedd ysgolion yn gwneud digon i egluro wrth ddysgwyr yr ystod o opsiynau sydd ar gael iddynt wedi iddynt adael addysg orfodol.
- Pryderon ynghylch y rhwystrau i gael mynediad at addysg drydyddol ac aros mewn addysg drydyddol, gan gynnwys cyllid, ymwybyddiaeth o'r opsiynau, a natur wledig.
- Anghysonderau mewn cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg.
- Canmoliaeth i'r cymorth sydd ar gael ar gyfer anghenion iechyd meddwl mewn darparwyr addysg drydyddol.

**Mae ein Cynllun Strategol yn ymrwymo i *greu fforwm llais y dysgwr i oleuo prosesau Medr ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau.***

Gan adeiladu ar ein gwaith cychwynnol, rydym yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UMC) Cymru a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i ddechrau creu strwythur mwy cynaliadwy y gallwn ei ddefnyddio i ymgysylltu ac ymgynghori â dysgwyr ynghylch yr hyn a wnawn.

Mae hyn yn rhan o'n rhaglen ehangach o waith llais y dysgwr ac ymgysylltu â dysgwyr, gan gynnwys creu Cod Ymgysylltu â Dysgwyr statudol newydd i roi cymorth i gynnwys dysgwyr mewn prosesau penderfynu ar draws y sector trydyddol.

> "Mewn chwe grŵp ffocws gwelwyd 47 o ddysgwyr o 17 o ddarparwyr addysg drydyddol yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr, yr oedd gan nifer ohonynt rolau cynrychioli megis cynrychiolwyr cyrsiau, swyddogion undebau llafur neu fyfyrwyr-lywodraethwyr."

# Nod Sefydlu

## Sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo

**Daethom yn weithredol ar 1 Awst 2024, gan ddwyn ynghyd swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Llywodraeth Cymru gyda staff yn trosglwyddo o'r sefydliadau etifeddol.**

### Pontio'n esmwyth

Cafodd y broses i sefydlu Medr, ac i bontio staff a swyddogaethau iddo'n esmwyth, ei hategu gan grŵp bach o staff. Roedd eu gwaith yn cynnwys cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, cychwynnol, gyda'n Bwrdd yn cytuno y byddem yn gweithio yn ysbryd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, gan ddangos ein hymrwymiad i ymgorffori cyfle cyfartal ym mhopeth a wnawn fel sefydliad. Cyhoeddir adroddiadau yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wahân yn unol â'n gofynion statudol.

Fe wnaeth staff a drosglwyddodd i ni wneud hynny naill ai gyda'r cyfle i symud i'n telerau ac amodau cyflogaeth ni, neu drwy gadw eu telerau ac amodau presennol o'r priod sefydliadau. O ran y rhai a gadwodd eu telerau ac amodau presennol fe wnaeth rhai newidiadau i'r telerau ac amodau hynny fel eu bod yn cyd-fynd yn well ac yn debycach i rai'r ddau grŵp o staff a oedd yn trosglwyddo. Ar yr adeg y daethom yn weithredol, roedd gennym 90 o aelodau o staff, mewn strwythur arfaethedig a oedd yn cynnwys cyfanswm o tua 170 aelod o staff.

### Strwythur Medr 2024-25

| | |
|---|---|
| Cadeirydd y Bwrdd | **Yr Athro Fonesig Julie Lydon** |
| Prif Weithredwr | **Simon Pirotte** (tan 31 Gorffennaf 2025) |
| Prif Swyddog Gweithredu | **James Owen** |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi | **Rhian Edwards** |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Chyllido | **Bethan Owen** (tan 7 Chwefror – swydd yn wag wedi hynny) |
| Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Sgiliau | **Harriet Barnes** |
| Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr | **Kieron Rees** (o 16 Rhag 2024) |
| Cyfarwyddwr Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad | **Geoff Hicks** |
| Cyfarwyddwr Rheoleiddio | **Dr Ewen Brierley** |
| Prif Swyddog Ariannol | **Giles Cutler** |
| Cyfarwyddwr Ystadegau a Dadansoddi | (Swydd Wag) |
| Prif Swyddog Digidol | (Swydd Wag) |

## Cyllido

**Yn ystod y cyfnod adrodd roeddem yn gweithio i drefniadau a etifeddwyd gan y cyrff a'n rhagflaenodd, sef Llywodraeth Cymru a CCAUC.**


Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau gwahanol ar gyfer rhannau gwahanol o'r sector trydyddol, o ddyraniadau cyllid blynyddol mawr, seiliedig-ar-fformiwla, i botiau llai o gyllid ar gyfer prosiectau tymor byrrach. Fel a nodir isod, yn ystod y cyfnod adrodd rydym wedi dyrannu cyllid sylweddol i golegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant preifat, sefydliadau addysg uwch ac awdurdodau lleol ledled Cymru i gyflawni ein blaenoriaethau yn unol â'n telerau ac amodau cyllid. Mae peth o'n cyllid hefyd yn cael ei ddarparu i sefydliadau sy'n cefnogi'r sector neu'n rhoi sicrwydd i ni mewn perthynas â chyflawni'r blaenoriaethau hynny megis Estyn, Jisc, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a Chymdeithas Ddysgedig Cymru.

Drwy ddatblygu systemau TG a chyllido newydd, eu profi a'u rhoi ar waith yn llwyddiannus, bu modd i ni barhau i ddosbarthu cyllid i ddarparwyr addysg drydyddol yn effeithlon a heb unrhyw darfu.

**Cyfanswm cyllid Medr £686m**

### Dosbarthiad cyllid y sector 2024-25

**Pwy sy'n cael y cyllid:**




**Yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cyllid a ddyrennir i'n darparwyr:**

- Prentisiaethau **£119m**
- Cyllid craidd addysg bellach (gan gynnwys darpariaeth addysg bellach a chyllid cymorth dysgu ychwanegol a chyllid anghenion dysgu ychwanegol) **£294m**
- Cyllid craidd addysg uwch (gan gynnwys cyllid ymchwil ac arloesi) **£122m**
- Cyllid craidd awdurdodau lleol (gan gynnwys chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned) **£78m**
- Cyllid strategol **£33m**
- Cyllid cyfalaf addysg uwch **£31m**
- Cyflenwyr eraill **£9m**

Ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r £m cyfan agosaf.

Ochr yn ochr â dyrannu cyllid ar gyfer 2024-25, fe wnaethom gytuno'n derfynol ar ddyraniadau cyllidebol drafft Medr ar gyfer 2025-26 gyda'n Bwrdd, gyda hynny'n cael ei oleuo gan gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ei hun, a gyhoeddwyd tuag at ddiwedd 2024. Yn dilyn cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 gan y Senedd, fe gadarnhaodd Llywodraeth Cymru gyllid o £961.818m yn unol â methodolegau cyllido a llinellau cyllideb a etifeddwyd gan y sefydliadau a'n rhagflaenodd. Cytunwyd ar hyn yng nghyd-destun pontio esmwyth a pheidio â gwneud newidiadau sylweddol i'r methodolegau hynny.

## Rheoleiddio

Mae graddfa'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru yn sylweddol, ac un o'n cyfrifoldebau allweddol yw cynnal goruchwyliaeth reoleiddiol dros ddarparwyr addysg drydyddol. Cyfanswm incwm y sector addysg uwch yn 2023/24 oedd £1,980.1m, a chyfanswm incwm y sector addysg bellach oedd £761.4m. Mae darparu goruchwyliaeth reoleiddiol yn ystod cyfnod o heriau a chraffu ariannol digynsail i ddarparwyr addysg drydyddol wedi golygu bod yn rhaid wrth ddull ymarferol gan ein staff. Mae hyn wedi cynnwys cylch rheolaidd o ymgysylltu dwyffordd ag uwch aelodau ar draws yr holl ddarparwyr yng Nghymru a chyfarwyddwyr cyllid. Mae ymateb i'r heriau hyn wedi ein helpu i gryfhau prosesau rheoleiddio ac wedi cynyddu llif gwybodaeth i'n Bwrdd, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Rydym hefyd wedi gwneud cryn dipyn o waith paratoadol ar ddatblygu system reoleiddio newydd yng Nghymru. Wrth baratoi ar gyfer system reoleiddio newydd, ochr yn ochr â'n hymdrechion i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, rydym wedi ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen o aelodau'r Bwrdd ac aelodau allanol i ddarparu cyngor annibynnol.

## Partneriaeth gymdeithasol yn Medr

O'r cychwyn cyntaf, mae edwyddorian partneriaeth gymdeithasol wedi bod yn ganolog i'n ffyrdd o weithio. Mae'r undeb PCS wedi cael ei gydnabod fel ein hundeb llafur. Mae cynrychiolydd ar ran ein gweithlu, a enwebwyd gan PCS, yn gwasanaethu fel Aelod Cyswllt ar ein Bwrdd. Mae gennym hefyd Aelodau Cyswllt o'r Bwrdd sy'n cynrychioli'r gweithlu academaidd ac anacademaidd yn y sector addysg drydyddol. Yn ymuno â'r Aelodau Cyswllt hyn mae Aelod Cyswllt arall o'r Bwrdd a enwebwyd gan sefydliadau a gydnabyddir gan Weinidogion i gynrychioli buddiannau dysgwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Fe ymgymerodd yr holl Aelodau Cyswllt o'r Bwrdd â'u rolau ar ein Bwrdd ym mis Medi 2024.

Rydym wedi sefydlu Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ac mae wedi cwrdd deirgwaith yn ystod y cyfnod adrodd, ym mis Tachwedd, mis Chwefror a mis Mawrth.

### Mae'r cyfarfodydd hynny wedi cynnwys trafodaethau am:

- newidiadau i ddiwygio ein strwythur,
- datblygu arolwg pobl ar draws ein sefydliad, a
- chytundeb partneriaeth gymdeithasol.

Cyn i Medr ddod yn weithredol, briffiwyd y Bwrdd gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, ac ar wahân fel wnaeth ein Prif Swyddog Gweithredu fynychu hyfforddiant partneriaeth gymdeithasol Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â chynrychiolaeth o PCS. Roedd ein Prif Swyddog Gweithredu'n bresennol yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar 12 Mawrth 2025 hefyd.

Roeddem yn falch o gyrraedd consensws â PCS ynghylch ein hamcanion llesiant (ein nodau strategol) a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

# **Astudiaeth Achos:** Gweithio gyda busnes arobryn yng Nghymru i greu swyddfeydd cynaliadwy

**Cafodd mwy na 130 o ddarnau o ddodrefn swyddfa eu hailddefnyddio i ddodrefnu ein pencadlys newydd yng Nghaerdydd.**


Ym mis Ebrill 2024, fe symudom ni i mewn i'n swyddfa newydd yn 2 Cwr y Ddinas yng Nghaerdydd, yn union wrth i ni ddechrau gweithio ar ddatblygu ein Cynllun Strategol. Fe wnaeth yr amseriad ein galluogi i sicrhau bod staff a oedd yn trosglwyddo'n gallu cydweithio cyn i ni ddod yn llwyr weithredol ar 1 Awst.

Mae'r swyddfa ar osod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), a oedd yn lleihau ei arwynebedd llawr oherwydd cynnydd mewn gweithio hybrid.

Roedd ICC wedi gadael peth wmbredd o ddodrefn dros ben yn yr ardal a adawyd ganddynt a, thrwy gydweithio, fe wnaethom sicrhau nad oedd unrhyw beth o'u plith yn mynd i safle tirlenwi trwy ailbwrpasu beth allem ni ar gyfer defnydd Medr a gweithio gyda sefydliadau lleol, gan gynnwys ysgolion, i sicrhau bod yr hyn a oedd yn weddill i gyd yn cael ei ailddefnyddio.

**Fe weithiom ni gyda'r cwmni dylunio dodrefn BOF ym Mhen-y-bont ar Ogwr i:**

- gyd-ddylunio a chreu swyddfa ffantastig, fodern a phwrpasol sy'n gweithio i Medr.
- adnabod ac ailbwrpasu dodrefn er mwyn lleihau'r ôl troed amgylcheddol, gwella cynaliadwyedd a lleihau gwastraff heb beryglu ansawdd.




Trwy weithio gyda BOF ar estyn cylch oes 55 o gadeiriau desg a ailglustogwyd, 36 o ddesgiau, 20 o gadeiriau ystafelloedd cyfarfod a llwyth o ddodrefn arall, rydym wedi lleihau'r angen i brynu dodrefn drutach ac wedi lliniaru'r effaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu a gwaredu. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â nodau Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer gwasanaethau rheng-flaen, ac yn cyfrannu at gyrraedd y nod o ran uchelgeisiau Cymru Sero Net i ddod yn garbon niwtral erbyn 2050.

Roedd ymroddiad BOF i weithredu'n gyfrifol yn golygu ei fod wedi cael Gwobr y Brenin am Fenter yn y categori datblygu cynaliadwy. Roedd y wobr glodfawr hon yn cydnabod ei ymrwymiad parhaus i arferion cynaliadwy a'i ymroddiad i weithredu'n gyfrifol, ac yn dangos ein bod wedi partneru â chwmni lleol dawnus sy'n cael effaith gadarnhaol.

# Nod Strategol Un

## Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.

**Mae anghenion dysgwyr yn ganolog i bopeth a wnawn. Rydym wedi bod yn glir iawn ynglŷn â hyn o'r dechrau un.**

### Iechyd meddwl a llesiant

Yn y flwyddyn academaidd 2024/25, fe wnaethon ni ddarparu bron i £7m i brifysgolion a cholegau addysg bellach i gefnogi iechyd meddwl a llesiant. Mae hyn wedi galluogi cynnydd mewn cymorth uniongyrchol i ddysgwyr trwy gyllid ar gyfer cynlluniau llesiant darparwyr, gan hefyd gyflawni prosiectau cydweithredol cenedlaethol megis y prosiect iechyd meddwl Cymru gyfan sy'n amcanu at wella sut y mae darparwyr yn cydweithio gyda'r GIG i wella dealltwriaeth a mynediad at gymorth. Mae ein cyllid hefyd wedi cefnogi mynediad at gynhyrchion mislif, gan gydnabod cost ychwanegol urddas mislif i ddysgwyr.

## **Astudiaeth Achos:** Ehangu'r prosiect data iechyd meddwl

**Partneriaeth gydweithredol rhwng gwasanaethau addysg ac iechyd i wella cymorth ar gyfer myfyrwyr a dysgwyr y mae arnynt angen darpariaeth iechyd meddwl ychwanegol i lwyddo yn eu hastudiaethau yw'r prosiect data iechyd meddwl i brifysgolion a cholegau dan arweiniad Prifysgol Caerdydd.**

Mae'r prosiect Cymru gyfan hwn, sydd wedi bod yn cael ei gyllido ers 2019, wedi datblygu prosesau arloesol i asesu anghenion iechyd meddwl myfyrwyr yn gyson ac yn fwy effeithiol, gan alluogi gwasanaethau cymorth addysgol a gwasanaethau iechyd i ddeall yn glir beth yw anghenion myfyrwyr a'u cyfeirio at y gwasanaethau priodol.

> "Mae prifysgolion wedi cydweithio'n agos gyda'u byrddau iechyd lleol i sicrhau bod eu prosesau data a phrosesau eraill yn cyd-fynd â'i gilydd ac i ddileu rhwystrau i atgyfeiriadau iechyd meddwl ar gyfer myfyrwyr."

Mae'r prosiect wedi addasu ei brosesau i ddiwallu anghenion dysgwyr mewn addysg bellach. Mae wedi darparu cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng addysg uwch ac addysg bellach a rhannu arfer da ar draws darparwyr, yn ogystal â gwella perthnasoedd rhwng colegau a byrddau iechyd lleol. Ar y cyd mae darparwyr wedi bod yn adnabod bylchau yn y cymorth i ddysgwyr a myfyrwyr i wella'r ddarpariaeth a chymorth trwy wasanaethau.

Fe wnaethom hefyd ddarparu cyllid ar gyfer adnodd llesiant ac iechyd ar-lein cyfrwng Cymraeg, o'r enw myf.cymru. Dan arweiniad Prifysgol Bangor mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, mae'r adnoddau llesiant ac iechyd ar-lein wedi cael eu datblygu gan fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr Cymraeg lle bynnag y maent yn astudio. Mae'r prosiect myf.cymru hefyd yn cydlynu rhwydwaith o ymarferwyr AU/AB ar gyfer staff sy'n rhoi cymorth i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, i hyrwyddo cymorth i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg a rhannu arfer gorau.

> "Fe wnaethom hefyd ddarparu £50K yn 2024/25 ar gyfer adnodd llesiant ac iechyd ar-lein cyfrwng Cymraeg, o'r enw myf.cymru."

## Llais y myfyriwr

Er mwyn i ddysgwyr fod yn ganolog i'r system addysg drydyddol yng Nghymru rhaid i'w llais oleuo penderfyniadau a wneir ar draws y system. Ynghyd â bod â chynrychiolydd dysgwyr fel Aelod Cyswllt o'r Bwrdd, rydym wedi gweithio gyda chynrychiolwyr dysgwyr, darparwyr y sector trydyddol a rhanddeiliaid i ddechrau'r broses o greu Cod Ymgysylltu â Dysgwyr Medr ar y cyd.

Bydd y Cod yn cefnogi ac yn cryfhau'r modd y mae dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn prosesau penderfynu, gan adeiladu ar arfer da presennol ac adlewyrchu anghenion amrywiol dysgwyr mewn gwahanol leoliadau.

Gan ddechrau o egwyddorion drafft a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a CCAUC, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sector addysg drydyddol i ddatblygu set o egwyddorion sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr i nodi sut y dylai dysgwyr ddisgwyl gallu ymgysylltu â phrosesau penderfynu eu darparwyr. Ymgynghoron ni ynghylch y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn hydref 2025 a bydd yn dod i rym ym mis Awst 2026. Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn rydym wedi sefydlu grŵp cyswllt gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru, ac wedi neilltuo cyllid am y tair blynedd nesaf ar gyfer Elusen UCM i gefnogi cynrychiolaeth dysgwyr mewn addysg bellach ac uwch.

## Cyfle cyfartal

Rydym yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r holl ddysgwyr yng Nghymru, yn darparu bron i £17m trwy ein cyllid cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol i golegau addysg bellach. Mae'r cyllid hwn yn galluogi sefydliadau i roi'r cymorth iawn ar waith ar yr adeg iawn, gan ddileu rhwystrau sylweddol i allu dysgwyr i wireddu eu llawn botensial.

Dros flwyddyn academaidd 2024/25, fe wnaeth bron i £22m o'n cyllid gefnogi darpariaeth Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS), gan ddwyn budd i 1,720 o ddysgwyr amser llawn. Ochr yn ochr â chefnogi'r ddarpariaeth gyfredol, mae Medr wedi rhoi comisiwn i Estyn i gynnal adolygiad thematig o Sgiliau Byw'n Annibynnol i archwilio datblygiadau ers yr adolygiad o Sgiliau Byw'n Annibynnol yn 2017 ac i helpu i oleuo cyfeiriad polisi yn y maes hwn yn y dyfodol. Rydym wedi ymgysylltu'n rheolaidd ag Estyn i ddarparu gwybodaeth a rhannu mewnwelediadau cynnar i wneud yr adolygiad, ac unrhyw argymhellion, mor gynhwysfawr a chadarn â phosibl.

Rydym hefyd yn cydnabod y gall ystyriaethau ariannol effeithio ar fynediad dysgwyr at addysg. Felly rydym wedi darparu bron i £7m yn y flwyddyn academaidd 2024/25 i'r tri ar ddeg o golegau addysg bellach, y Brifysgol Agored a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i helpu i ddileu rhwystrau ariannol i addysg.

### Dysgwyr yn ôl math o ddysgu a darparwr, blwyddyn academaidd 2023/24

**Cyfanswm y dysgwyr mewn addysg drydyddol yng Nghymru**

**330k**

| Colegau addysg bellach | Darparwyr addysg uwch | Darparwyr hyfforddiant preifat | Dysgu oedolion yn y gymuned awdurdodau lleol | Chweched dosbarth ysgolion |
|---|---|---|---|---|
| 131k | 149k | 26k | 13k | 21k |

Ffigyrau'n gywir ym mis Hydref 2025 ac wedi'u talgrynnu i'r 1,000 agosaf. Gall rhai dysgwyr gofrestru â mwy nag un math o ddarparwr. Dim ond unwaith y caiff y dysgwyr hyn eu cyfrif yn y cyfanswm.

# Nod Strategol Dau

## Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.

### Sgiliau a chyflogadwyedd

Mae sefydlu perthnasoedd a ffyrdd o weithio sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru wedi bod yn hanfodol i harneisio system drydyddol fwy cydgysylltiedig. Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar ffyrdd cydweithredol a chynhwysol o weithio sy'n ein galluogi i fod yn ymatebol i flaenoriaethau o ran sgiliau, gan gynnwys pontio i sero net, a'n cysylltu â meysydd o fewn llywodraeth sy'n gyfrifol am brosiectau seilwaith a buddsoddi mawr. Bydd yn parhau i'n galluogi i ddeall y bylchau a'r cyfleoedd o ran sgiliau y bydd angen i'r sector trydyddol ymateb iddynt, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio goblygiadau creu Skills England a strategaethau megis Strategaeth Ddiwydiannol Fodern 2025 Llywodraeth y DU.

## **Astudiaeth Achos:** Dros 1000 o gyflogeion Tata Steel yn cael eu cefnogi trwy gyllid sgiliau cyhoeddus

**Mae dros fil o gyflogeion a oedd yn wynebu dyfodol ansicr o ganlyniad i benderfyniad Tata Steel UK i roi'r gorau i gynhyrchu dur yn y ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot wedi cael eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau newydd trwy raglen arloesol o ddysgu lleol.**

Nod y rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol yw helpu unigolion i uwchsgilio neu ailsgilio mewn sectorau sy'n flaenoriaeth, yn enwedig y rhai sy'n ennill llai na'r ffigwr blynyddol gros canolrifol ar gyfer oedolion sy'n gweithio'n llawn-amser yng Nghymru. Trwy ganolbwyntio ar sectorau sy'n flaenoriaeth genedlaethol, mae'r rhaglen yn gwella potensial cyfranogwyr i ddilyn gyrfaoedd ac ennill cyflog. Mae Cyfrifon Dysgu Personol Tata Steel yn dileu rhai o'r gofynion o ran mynediad a oedd yn ymwneud ag enillion er mwyn teilwra'r cymorth yn fwy i anghenion gwahanol y gweithlu. Mae Cyfrifon Dysgu Personol ehangach ar gael hefyd.

Manteisiwyd yn sylweddol ar y cynllun Cyfrifon Dysgu Personol – a gyllidwyd i ddechrau gan Lywodraeth Cymru ac sydd, ers mis Awst 2024, yn cael ei gyllido gan Medr – ac mewn nifer o achosion mae wedi arfogi dysgwyr yn gyflym â'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth amgen.

Trwy dargedu cyllid i ddiwallu anghenion penodol y rhai a oedd yn gallu cael mynediad ato, mae colegau, darparwyr hyfforddiant a busnesau lleol wedi cydweithio i ddarparu sgiliau a rhagolygon newydd ar gyfer llawer a oedd yn wynebu dyfodol anodd.

Dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn unig, mae'r ymyrraeth Tata Steel wedi cynorthwyo dros 800 o weithwyr Tata i wneud 995 o gyrsiau gyda 215 o ddysgwyr eraill a wnaeth ymhell dros 300 o gyrsiau wedi cael eu cefnogi dros y misoedd diwethaf.

Roedd Ben, sy'n dad 40 oed i ddau yn eu harddegau, wedi bod yn gweithio yn Tata am 24 o flynyddoedd, ac mae'n un o'r cyn-gyflogeion i gael budd o Gyfrif Dysgu Personol. Ar ôl adnabod a chwblhau nifer o gyrsiau gyda Grŵp Colegau NPTC, mae bellach wedi dod o hyd i gyflogaeth amgen.

Meddai Ben: **"Fe ddewisais i'r cyrsiau am mai'r rheiny oedd yn gweddu orau i mi fel ffordd o atgyfnerthu ac adeiladu ar fy mhrofiadau a'm hyfforddiant yn Tata, nad oedd wastad yn cael ei achredu'n swyddogol gan gyrff allanol. A minnau heb gael rhyw lawer o lwyddiant yn y farchnad swyddi ar gyfer y rolau yr oedd gennyf ddiddordeb ynddynt, mae wedi bod yn agoriad llygad go iawn cael gweld effaith yr achrediadau yr wyf wedi eu hennill. Ers hynny dangoswyd diddordeb ynof gan gwmnïau lluosog ac yn ddiweddar rwyf wedi derbyn swydd ar brosiect ynni mawr ar lefel y DU nid nepell o Bort Talbot. Rwyf wir yn ei mwynhau."**

Meddai'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, Vikki Howells: **"Rydym wedi gwneud ymrwymiad i'r gymuned gyfan ym Mhort Talbot na fyddent yn cael eu gadael ar ôl o ganlyniad i benderfyniad Tata Steel i newid gweithrediadau yn y gwaith dur yn gyflym ac mae'r Cyfrifon Dysgu Personol pwrpasol hyn yn enghraifft ardderchog o sut yr ydym ni, gan weithio gyda Medr a phartneriaid, yn darparu ymyriadau sy'n cael effaith fawr i ailsgilio pobl a'u cynorthwyo i gael cyflogaeth leol amgen. Mae'n dda iawn gennyf weld Medr yn parhau â'r ymyriad hwn yn ystod 2026 a byddwn yn annog unrhyw un sy'n gymwys ac nad yw wedi cael mynediad ato eto i ystyried sut y gallai fod o fudd iddynt hwy."**

Gall unigolion ymgeisio naill ai'n uniongyrchol i'r colegau neu drwy Cymru'n Gweithio.

Rydym hefyd wedi cytuno ar egwyddorion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, sy'n cynnwys sedd i ni ar bob un o'u Byrddau, ac rydym yn gweithio gyda hwy i adnabod sut y gall eu perthnasoedd agos gyda sectorau a chyflogwyr mewn diwydiant gael eu defnyddio i ddarparu cudd-wybodaeth am anghenion yr economi. Rydym wedi cwrdd â phob un o'r pedwar Cydbwyllgor Corfforedig i ddeall eu blaenoriaethau ac archwilio sut y gallwn gydweithio gyda hwy i gefnogi llesiant economaidd.

Rydym hefyd wedi cefnogi'r cynllun Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr mewn addysg uwch, a Biwroau Cyflogaeth a Menter mewn colegau addysg bellach i roi cymorth â ffocws penodol i ddysgwyr, gan sicrhau bod ganddynt y sgiliau y mae eu hangen arnynt i ymuno â'r farchnad lafur. Ochr yn ochr â hyn rydym yn parhau i drosoli ein cylch gwaith ar draws y sector trydyddol i greu rhwydweithiau gan alluogi darparwyr addysg bellach ac addysg uwch i fynd ati'n rhwyddach i rannu arfer gorau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

## Dysgu digidol

Trwy ein cyllid grant, mae Jisc, asiantaeth ddigidol, data a thechnoleg sy'n canolbwyntio ar addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi yn y

DU, wedi parhau i gynorthwyo darparwyr ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a sgiliau i ddatblygu eu capasiti i ddarparu dysgu digidol.

**Mae gweithgareddau eleni wedi cynnwys:**

- astudiaeth yn archwilio'r defnydd o ddarpariaeth hybrid a chyfunol mewn addysg bellach, gan gynnwys astudiaethau achos thematig;
- modiwlau i gynorthwyo staff i ddeall hygyrchedd digidol a llesiant digidol; a
- chymorth ar gyfer cymuned ymarfer deallusrwydd artiffisial (AI) yng Nghymru i rannu profiadau o ddefnyddio AI i wella dysgu ac addysgu.

## Prentisiaethau

Un o'n prif gyfraniadau at gaffael sgiliau mewn economi sy'n newid yw'r gwaith yr ydym wedi'i wneud ar y rhaglen brentisiaethau yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi rhaglen dair blynedd o adolygiadau o'r fframweithiau prentisiaethau, gan ddefnyddio barn dysgwyr, darparwyr a chyflogwyr i ddiweddaru'r gofynion ar gyfer prentisiaethau fel eu bod yn adlewyrchu anghenion cyfredol yr economi ac yn darparu llwybrau eglur i ddysgwyr gamu ymlaen. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar saith fframwaith hefyd, gan gynnwys adeiladu a thechnoleg ddigidol. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru bydd llyfrgell fframweithiau newydd yn cael ei lansio a honno'n darparu mynediad gwell at wybodaeth am ofynion prentisiaethau ar gyfer cyflogwyr a darparwyr.

Mae ein cylch gwaith wedi ein galluogi i integreiddio gradd-brentisiaethau o fewn y rhaglen brentisiaethau lawn, gan alluogi system drydyddol fwy cydgysylltiedig. Rydym hefyd wedi darparu cyllideb ychwanegol ar gyfer Prentisiaethau â Chymorth sy'n darparu cefnogaeth ychwanegol i brentisiaid anabl sydd angen cymorth ychwanegol i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt.

Gan gydnabod pwysigrwydd hybu cyfle cyfartal ar draws addysg drydyddol, rydym wedi darparu £246k mewn cyllid ychwanegol ar gyfer cyflogwyr i'w galluogi i gynorthwyo cyflogeion anabl i ymgymryd â phrentisiaethau ac rydym wedi gweithio gyda'n darparwyr hyfforddiant annibynnol i ddatblygu eu cynlluniau gweithredu dan y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Rydym wedi dechrau pennu cwmpas y rhaglen brentisiaethau nesaf, a fydd yn cael ei darparu o fis Awst 2027, gan ymgysylltu â chyflogeion, cyrff diwydiant, darparwyr a dysgwyr i ddeall y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen gyfredol ac ystyried sut y gall y rhaglen yn y dyfodol gael ei dylunio i sicrhau ei bod yn gallu diwallu anghenion Cymru. Mae'r gwaith hwn yn parhau trwy 2025-26, yn fwyaf nodedig trwy ymgynghoriad ffurfiol a dechrau'r broses gomisiynu newydd.

## Cenhadaeth ddinesig

Un o'n dyletswyddau strategol yw hybu cenhadaeth ddinesig yn ogystal â dyletswydd i hybu cydweithio a chydlyniad ar draws y sector trydyddol. Gan adeiladu ar ddulliau presennol o ymdrin â chenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu cymunedol ar draws y sector, rydym wedi cynorthwyo darparwyr addysg uwch ac addysg bellach i ddod ynghyd i ffurfio tair Partneriaeth Ymgysylltu Dinesig Ranbarthol yng Ngogledd, Canolbarth/Gorllewin a De Cymru. Mae'r partneriaethau hyn wedi annog darparwyr i ddod ynghyd i gydlynu a chysoni eu hymdrechion ymgysylltu dinesig, cyfuno eu hadnoddau a'u harbenigedd, a chydweithio gyda sefydliadau dinesig eraill i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer ymgysylltu dinesig yn eu priod ranbarthau.

# Nod Strategol Tri

## Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus.

### Ansawdd addysg

Elfen fyrdymor allweddol bwysig o'r ymrwymiad hwn fu sicrhau bod trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd darparwyr yn parhau yn ddi-dor, yn adeiladu ar gryfderau'r system bresennol. Rydym wedi bod yn gweithio gydag Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) fel partneriaid allweddol i gefnogi'r gwaith hwnnw.

Ochr yn ochr â hwn rydym wedi cydweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu egwyddorion a chonglfeini Fframwaith Ansawdd drafft ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru ac amod cysylltiedig ynglŷn ag ansawdd.

**Rydym wedi cynnal cyswllt â grwpiau yn y sector i ddrafftio Fframwaith Ansawdd newydd, gan gynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau gyda:**

- Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru,
- y rhwydwaith prentisiaethau,
- rhwydwaith addysg oedolion y Sefydliad Dysgu a Gwaith,
- Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd Colegau Cymru, a
- Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru.

Mae adborth gan y grwpiau hyn wedi goleuo datblygiad y fframwaith cyn ymgynghori. Mae'r fframwaith yn nodi gofynion ar gyfer asesu cydymffurfedd ac mae'n seiliedig ar ddata, gwybodaeth (gan gynnwys cwynion) a deilliannau asesiadau ansawdd allanol o ddarparwyr.

I roi cymorth i gyflawni ein gwaith rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd yn unol â'n dyletswyddau yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. O ystyried pwysigrwydd strategol y Pwyllgor hwn, fe'i sefydlwyd cyn i ni ddod yn weithredol i sicrhau ei fod yn gallu cynghori'r Bwrdd o ddechrau ei weithrediadau. Cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mai 2024, ac mae wedi cwrdd yn aml ers hynny, gan ddarparu goruchwyliaeth ar y dyletswyddau ansawdd a etifeddwyd gennym a'n trefniadau newydd i oruchwylio ansawdd profiad dysgwyr mewn addysg drydyddol yng Nghymru.

### Dysgu proffesiynol

I wella ein goruchwyliaeth, rydym wedi parhau i ddyrannu cyllid wedi'i neilltuo i'r sector addysg bellach i gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer staff sy'n rhan o ddarparu neu gefnogi dysgu ac addysgu. Rydym hefyd wedi cyllido Colegau Cymru i beilota grŵp cyfeirio i gynorthwyo'r sector addysg bellach i werthuso effaith dysgu proffesiynol, rhannu arfer da, a chytuno ar themâu a blaenoriaethau cyffredin.

### Partneriaeth gymdeithasol mewn addysg drydyddol

Mae dyletswydd strategol arnom i hybu cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur. Yn unol â hyn, rydym wedi

cyllido cyfres o gynlluniau peilot partneriaeth gymdeithasol mewn colegau addysg bellach, gan roi cymorth ymgynghoriaeth i helpu i ddatblygu modelau cydweithio sydd wedi'u teilwra i strwythur, anghenion a blaenoriaethau'r sefydliad unigol. Mae cynlluniau peilot eleni yng Ngholeg y Cymoedd a Grŵp Colegau NPTC yn cael eu cwblhau a'u gwerthuso ar hyn o bryd. Bydd y gwaith cychwynnol hwn yn helpu i oleuo rhaglen ehangach o gymorth ar gyfer cydweithio, y bwriedir trefnu iddi fod ar gael i'r holl ddarparwyr yn y sector trydyddol ag undebau llafur cydnabyddedig.

## **Astudiaeth Achos:** Cydweithio i ddatblygu canllawiau ansawdd hunanwerthuso i'w defnyddio ar draws y sector trydyddol cyfan

**Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yw'r corff ansawdd arbenigol annibynnol ar gyfer sector addysg uwch y DU. Mae'n cynnal adolygiadau asesu ansawdd ac yn datblygu canllawiau i ddarparwyr ar faterion perthnasol.**

Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, ac mae'n darparu arolygiadau a chyngor annibynnol ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant.

Gan dynnu ar arbenigedd grŵp llywio traws-sector, rydym wedi cyllido'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn i gydweithio ar brosiect i ddatblygu a gwreiddio diwylliant o hunanwerthuso a gwella'n barhaus ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch, darparwyr prentisiaethau, a phartneriaethau addysg oedolion.

Bydd y dull hwn, gan roi cymorth i gysoni prosesau a pharchu amrywiaeth y sector ar yr un pryd, yn helpu i danategu ein cylch gwaith fel rheoleiddiwr trosfwaol addysg drydyddol, ac mae'n nodi carreg filltir o ran mynd ar drywydd gwelliant parhaus mewn addysg.

Trwy werthuso cryfderau a gwendidau arferion cyfredol mewn addysg drydyddol, nod y prosiect yw adnabod nodweddion sy'n gyffredin ac yn wahanol a phennu i ba raddau y gellir cysoni prosesau ar draws y sector trydyddol gan ddal i ddiwallu anghenion unigol.

Mae'r prosiect hefyd yn archwilio'r dulliau a'r strategaethau o fewn darparwyr addysg drydyddol i ddatblygu a gwreiddio diwylliant o hunanwerthuso'n gadarn a gwella'n barhaus.


> "Ym mis Ebrill 2026, byddwn yn cyhoeddi'r canllawiau a fydd yn deillio o'r prosiect – gan gyfuno anghenion gwahanol randdeiliaid, a symleiddio prosesau ar gyfer sefydliadau."

# Nod Strategol Pedwar

## Tyfu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol.

Rydym yn darparu cyllid i gefnogi ymchwil ac arloesi rhagorol ac ar gyfer seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn galluogi sefydliadau i gynnal a datblygu sylfaen ymchwil gynaliadwy, gan danategu eu capasiti i gynnig am gyllid o ffynonellau eraill. Mae'r cyllid hwn yn allweddol bwysig er mwyn i ymchwil ac arloesi yng Nghymru allu cyfrannu at economi, cymdeithas a diwylliant Cymru, yn ogystal â chael effaith fyd-eang.

**Mae prifysgolion Cymru'n ennill cyllid ar gyfer prosiectau ymchwil gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) – prif gyllidwr grantiau cystadleuol y DU – yn ôl cyfradd lwyddo sy'n debyg i wledydd eraill y DU:**




Yn 2023-24, roedd 191 o gynigion llwyddiannus, a buddsoddwyd £168m yng Nghymru, a oedd yn 3% o gyllideb grantiau cystadleuol Ymchwil ac Arloesi yn y DU. Mae gan Gymru gryfderau penodol yn y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, meysydd sydd â chyllidebau llai yn nodweddiadol, ac mae hefyd wedi sicrhau o leiaf 20 o Gymrodoriaethau Arweinwyr y Dyfodol hynod gystadleuol (o ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2025), sy'n darparu buddsoddiad hirdymor i ddatblygu'r don nesaf o ymchwilwyr ac arloeswyr o safon fyd-eang.

Fe wnaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) gefnogi gweithgareddau gan gynnwys partneriaethau strategol gyda diwydiant, prifysgolion yn gweithredu fel cynullwyr yn eu rhanbarthau mewn perthynas â datblygu economaidd a heriau cymdeithasol, cymorth ar gyfer gweithgarwch entrepreneuraidd a chychwyn busnesau gan raddedigion, a chapasiti gwell i roi cymorth i gyfnewid gwybodaeth a masnacheiddio.

Yn 2023/24 (y data diweddaraf sydd ar gael), roedd yr incwm a grëwyd gan brifysgolion o weithgarwch ymchwil ac arloesi allanol fel a fesurwyd gan HE-BCI (yr Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned) yn £251m; roedd hyn yn ostyngiad o £25m o'i gymharu â 2022/23, o ganlyniad i golli cronfeydd strwythurol yr UE. Adroddodd prifysgolion ar 113 o gwmnïau deillio (i fyny o 109 yn 2022/23) a 1,273 o fusnesau a gychwynnwyd gan raddedigion.

Fe gyhoeddodd Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN), a gyllidir ar y cyd gennym ni a chan brifysgolion, ei adroddiad effaith cyntaf o dair

blynedd gyntaf ei weithrediad. Mae prosiectau a gefnogwyd gan WIN wedi ysgogi £38m mewn buddsoddiad ychwanegol.

Mae ein partneriaeth strategol gyda Chymdeithas Ddysgedig Cymru wedi cefnogi datblygiad parhaus y Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar, bordau crynion i oleuo gwaith i greu polisïau ar ddeallusrwydd artiffisial, technolegau meddygol ac anabledd, a chryfhau perthnasoedd ag academïau cenedlaethol cyfatebol yn yr Alban ac Iwerddon fel sail ar gyfer gweithgarwch cydweithredol.

Fe wnaeth cyllid cyfalaf ymchwil addysg uwch gefnogi buddsoddiad mewn cyfleusterau sy'n ofynnol ar gyfer ymchwil i'r gofod, cyfrifiadura perfformiad uchel, dadansoddi deunyddiau a chydweithio gyda diwydiant sy'n gysylltiedig ag ymwrthedd gwrthficrobaidd. Fe wnaeth cyllid o £8.96m ysgogi £8.3m yn rhagor o ffynonellau eraill.

## **Astudiaeth Achos:** Datblygu diwylliannau ymchwil cadarnhaol

**I ategu ein huchelgais i wneud Cymru'n gydnabyddedig yn rhyngwladol am ymchwil ac arloesi sy'n dwyn manteision cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy, mae Medr wedi lansio cronfa Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru (WREC).**

Mae'r fenter hon yn rhoi cymorth wedi'i neilltuo i brifysgolion Cymru feithrin amgylcheddau ymchwil sydd wedi'u gwreiddio mewn uniondeb, cynwysoldeb, llesiant, a pharch – elfennau allweddol ar gyfer denu a chadw ymchwilwyr ac arloeswyr o safon fyd-eang.

Mae diwylliant ymchwil iach yn allweddol i feithrin arloesi, ymddiriedaeth a llwyddiant hirdymor i gefnogi ymchwil ragorol.

**Mae prifysgolion wedi cofleidio'r dull hwn, a hwythau'n gyson yn adnabod gwerthoedd craidd sy'n eu tywys yn eu hymdrechion:**

- **Cynwysoldeb** – pwysleisio pwysigrwydd creu amgylcheddau lle mae'r holl staff, gan gynnwys grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae hyn yn cynnwys cydnabod y cyfraniadau a wneir gan wasanaethau proffesiynol, staff technegol ac ymchwilwyr gyrfa gynnar.
- **Cydweithio** – rhoi anogaeth ar gyfer partneriaeth rhyngddisgyblaethol ac ar draws rolau, fel a welwyd mewn mentrau fel digwyddiadau diwylliant ymchwil Prifysgol Caerdydd a chaffis diwylliant ymchwil Prifysgol Abertawe.
- **Tegwch** – hybu arferion ymchwil teg, asesu cyfrifol, a mynediad teg at gyfleoedd datblygu.
- **Llesiant** – cefnogi iechyd meddwl a llesiant cyffredinol ymchwilwyr, yn enwedig ymchwilwyr ôl-radd ac ymchwilwyr gyrfa gynnar, trwy raglenni a digwyddiadau wedi'u neilltuo.
- **Cydnabod a Gwobrwyo** – dathlu cyfraniadau amrywiol i ymchwil trwy wobrau a chydnabyddiaeth gyhoeddus, megis y rhai ym Mhrifysgolion Aberystwyth ac Abertawe.
- **Bod yn Agored ac Uniondeb** – hybu ymchwil gyfrifol trwy arferion tryloyw, llywodraethu moesegol a mentrau data agored.
- **Grymuso a Datblygu** – buddsoddi mewn arweinwyr, datblygiad sgiliau, a datblygiad gyrfa, yn enwedig i fenywod a grwpiau lleiafrifol, fel a welwyd yn rhwydwaith EMPOWER Prifysgol Caerdydd a phrosiectau sbarduno Prifysgol Bangor.

**Gyda'i gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn adlewyrchu ymrwymiad gan y sector cyfan i feithrin cymunedau ymchwil parchus a grymusol, a danategir gan werthoedd a rennir, sef bod yn agored, cynwysoldeb a datblygu'n barhaus.**

Rydym wedi cydweithio gyda'r cyrff cyllido addysg uwch eraill yn y DU i barhau i ddatblygu Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2029, gan gyhoeddi canllawiau ar fynediad agored a mesurau maint, a lansio peilot i brofi'r elfen Pobl, Diwylliant a'r Amgylchedd. Mae'r rhai a recriwtiwyd i baneli cynghori ac asesu hyd yma'n cynnwys pum unigolyn o brifysgolion Cymru. Mae ein gwaith mewn partneriaeth gyda Research England wedi galluogi dwy brifysgol yng Nghymru i gael eu cynnwys ar y rhestr o sefydliadau sydd wedi mabwysiadu'r arfer gorau o ran telerau bargeinion ar gyfer cwmnïau deillio a argymhellwyd gan yr Adolygiad Annibynnol o Gwmnïau Deillio Prifysgolion.

Cafodd cyfarfod chwemisol Fforwm Gwyddoniaeth ac Arloesi Ymchwil ac Arloesi yn y DU ei gynnal yng Nghymru ym mis Hydref 2024, gyda chyflwyniadau a oedd yn amlygu amrywiaeth ymchwil yng Nghymru a'i heffaith economaidd, gymdeithasol, ddiwylliannol ac amgylcheddol.

Fel rhan o'n dyletswydd statudol rydym wedi gweithio gyda grŵp o arbenigwyr i siapio a ffurfio ein Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi. Bydd y Pwyllgor yn rhoi cyngor ar faterion sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi ac yn goruchwylio gwaith i ddatblygu polisi mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi. Cynhaliwyd gweithdy rhwng ein Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi a chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector addysg drydyddol ym mis Mawrth i archwilio gwersi a ddysgwyd o ddulliau cydweithio blaenorol a chyfleoedd i gefnogi ymgysylltiad trydyddol ag ymchwil ac arloesi.

Mae ein cyllid yn cyfrannu at gyflogi Golygydd Cymreig yn The Conversation, cyhoeddwr newyddion a dadansoddiadau sy'n ymwneud ag ymchwil. Yn 2024, fe arweiniodd hyn at gyhoeddi 227 o erthyglau gan 193 o awduron o Gymru a gyrraedd gynulleidfa o 5.2m o bobl ledled y byd. Wedyn fe gysylltodd y cyfryngau â 63% o'r awduron, ac fe gysylltodd gwneuthurwyr polisi ag 14% ohonynt.

> "Fel rhan o'n dyletswydd statudol rydym wedi gweithio gyda grŵp o arbenigwyr i siapio a ffurfio ein Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi."

# Strategic Aim 5



## Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Mae gennym rôl arwyddocaol i gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Ei tharged yw cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 a dyblu canran y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol dros yr un cyfnod.**

Fe fynegom ni'r ymrwymiad hwnnw yn ein hymateb i Fil y Gymraeg ac Addysg arfaethedig Llywodraeth Cymru (sydd bellach yn Ddeddf). Yn ein tystiolaeth ysgrifenedig a'n tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, roeddem yn glir bod *"gan addysg, yn ei chyfanrwydd (addysg y blynyddoedd cynnar, orfodol a thrydyddol), rôl arwyddocaol o ran cynorthwyo'r Llywodraeth i gyrraedd y targed hwn a sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu a bod cymunedau Cymraeg yn cael eu cefnogi a'u cryfhau."*

Fe wnaethom hefyd nodi yn ein tystiolaeth bod angen trefniadau gweithio cryf ar draws y gwahanol sefydliadau â chyfrifoldebau yn y maes hwn ar draws addysg drydyddol. Yn y cyd-destun hwnnw rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg), y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg, gan gydnabod bod gan bob un o'r sefydliadau hyn gyfrifoldebau allweddol o ran gweithio gyda'r rhai yr ydym yn eu cyllido ac yn eu rheoleiddio.

Mae'r Coleg wedi cael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru i roi cyngor i ni i'n helpu i gyflawni ein dyletswydd i hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

> Mae'r Coleg wedi cael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru i roi cyngor i ni i'n helpu i gyflawni ein dyletswydd i hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

# **Astudiaeth Achos:** Hybu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg trwy gydweithio strategol

**Mae gan Medr ymrwymiad dwfn i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sector addysg drydyddol.**

Ers ein sefydlu, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu perthnasoedd agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) gan amcanu at gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ategu strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn y flwyddyn 2050.

Yn wir, rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Coleg ers cyn i ni fod yn llwyr weithredol, gan gydnabod pwysigrwydd cyfleu sut yr ydym yn cydweithio i wireddu ein huchelgeisiau ar y cyd ar gyfer addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a'r angen i ni fod wrthi o ddifrif o'r dechrau un. Cafodd yr ymrwymiad hwn ei nodi'n ffurfiol trwy lofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth (ein cytundeb cyntaf o'r fath fel Medr) yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 7 Awst 2024.

**Yn dilyn llofnodi'r memorandwm, fe geisiom ni gyngor anffurfiol gan y Coleg ar ddatblygu ein Cynllun Strategol cyntaf. Ategwyd hyn gan gyngor ffurfiol gan y Coleg dan ei rôl ddynodedig, a oedd yn cyd-fynd â'i weledigaeth *"bod yr holl ddysgwyr yn defnyddio, yn cynnal ac yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu haddysg drydyddol neu hyfforddiant".***

Rhan ganolog o'r cyngor hwnnw oedd bod Medr yn defnyddio dull cydweithredol o ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg. Mae Medr wedi cofleidio'r cyngor hwn, gan wreiddio ymrwymiad i gyflawni Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn ein Cynllun Strategol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025.

Mae datblygu'r Cynllun Cenedlaethol yn ymrwymiad sefydlu allweddol i'n galluogi i gyrraedd ein nod strategol ehangach i "hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg"

> "Mae bod ag un nod strategol sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg yn atgyfnerthu'r pwys yr ydym ni fel Medr yn ei roi ar y Gymraeg."

Ochr yn ochr â hynny, rydym wedi cydweithio gyda'r Coleg i siapio ein hymateb i ymgynghoriad y Senedd ar Fil y Gymraeg ac Addysg ac wedi parhau i ymgysylltu â'r Coleg ar faterion strategol a gweithredol ar draws addysg drydyddol yng Nghymru.

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: **“Mae cyrraedd targedau Cymraeg 2050 i greu miliwn o siaradwyr a dyblu defnydd beunyddiol o’r iaith yn her benodol i’r sector trydyddol. Yn y sector hwn y mae gweithluoedd dwyieithog y dyfodol yn cael eu hyfforddi, o weithwyr gofal i feddygon, o gynorthwywyr addysgu i athrawon, o filfeddygon i barafeddygon.”**

**“Mae’r Coleg yn blês iawn gyda’r berthynas weithio gadarnhaol sydd wedi cael ei sefydlu gyda Medr hyd yma. Mawr groesawn ymrwymiad Medr i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ac edrychwn ymlaen at drafodaethau cynhyrchiol dros y flwyddyn nesaf. Rydym yn ffyddiog y bydd y berthynas rhwng y Coleg a Medr yn parhau i esblygu ac y bydd cydweithio’n arwain at wireddu gweledigaeth y Coleg, sef bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael i bawb sy’n astudio ac yn hyfforddi yng Nghymru, beth bynnag fo’u sgiliau Cymraeg.”**

Ym mis Rhagfyr 2024 fe groesawom ni’r cyngor ffurfiol cyntaf gan y Coleg a oedd yn nodi ei argymhelliad ein bod yn datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol yn ei gyfanrwydd.

Cafodd yr argymhelliad i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ei ategu gan chwe egwyddor ategol o dan yr egwyddor sylfaenol sef: “Dylai pob dysgwr ddefnyddio, cynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu haddysg drydyddol neu hyfforddiant, i’w galluogi i ddefnyddio’r sgiliau hyn yn y gweithle ac mewn lleoliadau anffurfiol.”

Rydym wedi derbyn yr argymhelliad i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol, gan weithio gydag ystod o randdeiliaid, a chan gymryd cyngor ffurfiol y Coleg i ystyriaeth. Rydym yn cydnabod y bydd dysgwyr yng Nghymru ar gontinwa dysgu gwahanol ond y dylent i gyd gael yr un cyfle hefyd i astudio rhai rhannau neu bob rhan o’u haddysg drydyddol yn Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny. Rhaid hyrwyddo’r cyfleoedd hyn.

> Rydym wedi derbyn yr argymhelliad i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol, gan weithio gydag ystod o randdeiliaid, a chan gymryd cyngor ffurfiol y Coleg i ystyriaeth.

## Cyfrwng Cymraeg a Chymraeg fel pwnc mewn addysg drydyddol – 2023/24

Nifer y cofrestriadau addysg uwch â rhwng 1 a 40 o gredydau'n cael eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg
**4,380**
2022/23

Nifer y cofrestriadau addysg uwch ag o leiaf 40 o gredydau'n cael eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg
**2,445**
2022/23

Nifer y cofrestriadau addysg uwch ar lefel israddedig yn gwneud Astudiaethau Cymraeg
**265**
2023/24

Cymwysterau Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf a ddechreuwyd
**240**
2023/24

Cymwysterau Uwch Gyfrannol Cymraeg iaith gyntaf a ddechreuwyd
**260**
2023/24

Cymwysterau Safon Uwch Cymraeg ail iaith a ddechreuwyd
**165**
2023/24

Cymwysterau Uwch Gyfrannol Cymraeg ail iaith a ddechreuwyd
**290**
2023/24

Canran y gweithgareddau dysgu a ddarparwyd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg mewn lleoliadau chweched dosbarth
**21%**
2023/24

Canran y gweithgareddau dysgu a ddarparwyd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned
**26%**
2023/24

Canran y gweithgareddau dysgu gydag ychydig bach o Gymraeg a ddarparwyd mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned
**21%**
2023/24

Ffigyrau'n gywir ym mis Hydref 2025 ac wedi'u talgrynnu.

# Datblygiadau a ddisgwylir yn y dyfodol

Ers diwedd y flwyddyn gyfrifyddu rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Gweithredol, sy'n nodi'r gweithgareddau allweddol y byddwn yn eu cynnal yn 2025-26 a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein Cynllun Strategol.

**Mewn adroddiadau yn y dyfodol bydd hyn yn cynnwys diweddariadau:**

- Datblygu'r fframwaith rheoleiddio newydd sy'n dechrau darparu golwg gyson ar addysg drydyddol yng Nghymru, a fydd yn cael ei oleuo gan ddau ymgynghoriad sylweddol yn ystod 2025-26.
- Cytundeb partneriaeth gymdeithasol rhyngom ni a'n hundeb cydnabyddedig, PCS.
- Dadansoddiad o ddarpariaeth addysg drydyddol hanesyddol, gyfredol ac arfaethedig i ddechrau deall bylchau a dyblygu, ac ymatebolrwydd darparwyr i anghenion dysgwyr ac anghenion economaidd, gan hefyd roi anogaeth i gydweithio, trwy rannu arfer.
- Ein polisi ac egwyddorion cyllid cychwynnol, yn ogystal ag adolygiad o gyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn addysg bellach a phrentisiaethau.
- Datblygiadau i wella data ar draws addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi yng Nghymru.
- Fframwaith cyffredin ar gyfer iechyd, iechyd meddwl a llesiant, a ategir gan amod rheoleiddiol i wella cyfle cyfartal a lles staff a myfyrwyr.
- Astudiaeth gwmpasu i adnabod cyfleoedd ac anghenion dysgu proffesiynol ar draws y sector trydyddol yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cydweithio a gweithgareddau ar y cyd ar draws y sector.
- Gwaith i hybu partneriaeth gymdeithasol yn y sector addysg drydyddol.
- Canfod sut orau y gallwn weithio gyda chyflogwyr a'r cyrff sy'n eu cynrychioli.
- Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ac amod rheoleiddiol cysylltiedig.

# Adroddiad Ariannol

## Sefydlu Medr

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Medr. Daeth Medr yn weithredol ar 1 Awst 2024, pan gychwynnwyd Adran 23 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Fe wnaeth Medr etifeddu swyddogaethau gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Llywodraeth Cymru gyda staff yn trosglwyddo o'r sefydliadau etifeddol. Rhoddwyd gorchymyn trosglwyddo ar waith am hanner nos ar 1 Awst 2024, a wnaeth drosglwyddo staff, asedau a rhwymedigaethau o CCAUC a, lle nodwyd hynny, Llywodraeth Cymru. Mae costau a ysgwyddwyd gan Lywodraeth Cymru neu CCAUC am sefydlu Medr cyn 1 Awst 2024 wedi cael eu cofnodi a rhoddwyd cyfrif amdanynt gan y sefydliadau hynny.

Yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Cymru mae trosglwyddo swyddogaethau o CCAUC a Llywodraeth Cymru i Medr yn cael ei drin fel trosglwyddo trwy ymgorffori. Mae symiau asedau net a gofnodwyd wedi cael eu dwyn i mewn i ddatganiadau ariannol Medr o 1 Awst 2024. Mae gwerth cario asedau net wedi cael ei gofnodi fel enillion nad ydynt yn enillion gweithredu o drosglwyddo swyddogaeth, trwy wariant net. Mae unrhyw gronfeydd wrth gefn ailbrisio a dibrisiant cronedig wedi cael eu trosglwyddo, gydag addasiadau cyfatebol i gronfa wrth gefn y gronfa gyffredinol.

Gan bod y swyddogaethau a gyflawnir gan Medr wedi'u hehangu o'i gymharu â'r rhai a gyflawnid gan CCAUC a Llywodraeth Cymru, nid yw datgeliadau ychwanegol am berfformiad ariannol hanesyddol o ran y swyddogaethau a gyflawnid gan CCAUC yn cyfrannu at ddealltwriaeth ddefnyddiol am berfformiad gweithredol Medr. Mae cyfrifon CCAUC am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Gorffennaf 2024 ar gael yn Gymraeg and Saesneg.

## Trosolwg Ariannol

| | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|
| **Cyllido addysg drydyddol:** | (686,427) |
| **Gwariant gweithredu Medr** | (6,821) |
| **Llog** | (23) |
| **Incwm o weithgareddau** | 4,507 |
| **Cymorth grant – cyllid gan Lywodraeth Cymru** | 692,256 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) yn Ecwiti Trethdalwyr** | 3,492 |

Ceir dadansoddiad pellach o wariant cyllido addysg drydyddol yn nodyn 3 ar y cyfrifon ar dudalen 77.

## Dadansoddiad Ariannol

Roedd cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru'n gyfanswm o £692.3m a gredydwyd yn uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol ecwiti trethdalwyr (gweler y 'Datganiad o'r sefyllfa ariannol' ar dudalen 71 a'r 'Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr' ar dudalen 73). Roedd y gronfa wrth gefn gyffredinol ecwiti trethdalwyr gronnol, ar 31 Mawrth 2025, ar ôl credydu'r cymorth grant y cyfeirir ato uchod, yn £8.4m. Bydd y cyfrifon ariannol wastad yn cofnodi canlyniad costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn o ganlyniad i gredydu'r cyllid gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd i'r gronfa wrth gefn gyffredinol ecwiti trethdalwyr. Cynllunnir ein gweithgareddau i sicrhau bod yr arian parod yr ydym yn ei gario ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dal i fod o fewn y ffigwr o ddau y cant o gyfanswm cymorth grant ar gyfer diwedd y flwyddyn neu bedwar y cant ar gyfer y misoedd eraill, fel a ganiateir gan Lywodraeth Cymru.

## Gwariant Gweithredu Medr 2024-25

| | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---:|
| **Costau staff** | 5,456 |
| **Adeiladau** | 151 |
| **Arall** | 807 |
| **Cyfanswm*** | **6,414** |

*Nid yw'n cynnwys dibrisiant nac amorteiddiad.

## Dangosyddion Perfformiad Ariannol

£7.8m oedd balans arian parod Medr ar 31 Mawrth, a oedd yn 1.1% o gyfanswm yr arian cymorth grant a oedd ar gael ac a oedd yn dal i fod o fewn yr uchafswm o 2% o gyfanswm y cyllid am y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cymru, fel a nodir yn y Ddogfen Fframwaith.

Targed Medr yw talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau o fewn pum niwrnod gwaith i gael anfoneb ddilys. Fe wnaethom dalu 72.5% o'r anfonebau o fewn pum niwrnod gwaith, gydag amser talu cyfartalog ar y cyfan o 6 diwrnod.

# Perfformiad

Yr wyf wedi fy argyhoeddi bod hwn yn adroddiad cywir ar ein perfformiad yn ystod y cyfnod adrodd yn seiliedig ar y sicrwydd a gafwyd gan y cyn-Brif Weithredwr.

## Busnes Gweithredol

Yn y cyfnod adrodd, fe ddyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid i Medr ar sail blwyddyn ariannol rhwng 1 Awst 2024 a 31 Mawrth 2025. Darperir y rhan fwyaf o'r cyllid i sefydliadau a darparwyr cymwys ar sail blwyddyn academaidd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf. Felly mae'n ofynnol bod Medr yn cwrdd â'r ymrwymiadau sy'n weddill ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 (rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf 2025) a osodir ar gyllideb Medr gan benderfyniadau blaenorol Gweinidogion a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bydd Medr yn cyllido hyn trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 gan y Senedd, fe gadarnhaodd Llywodraeth Cymru ar 20 Mawrth 2025 mai £961.8m fyddai cyllideb Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Felly, yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, mae'n briodol i Medr baratoi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2024-25 ar sail busnes gweithredol.


**James Owen,** Prif Weithredwr

17 Rhagfyr 2025

# Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Fel Swyddog Cyfrifyddu Medr, rwy'n atebol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru fel ei Brif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer cyflawni fy nghyfrifoldeb i gynnal systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn. Mae'r systemau hyn o gymorth i gyrraedd ein nodau strategol a chyflawni ein dyletswyddau statudol, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau o eiddo Medr yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'n Dogfen Fframwaith gyda Llywodraeth Cymru. Rwy'n gyfrifol am sicrhau bod yr arian ac asedau cyhoeddus a aseiniwyd i Medr yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Rwyf hefyd yn cydnabod fy nghyfrifoldebau mewn perthynas â'r arian a ddarperir i Medr, a ddyrennir i ddarparwyr addysg drydyddol ac eraill ar gyfer addysg, ymchwil ac arloesi, hyfforddiant ac at ddibenion cysylltiedig.



## Ein Huwch-dîm Arwain

Mae ein Huwch-dîm Arwain yn darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth weithredol yn y gwaith o gyflawni Cynllun Strategol Medr.

| Enw | Teitl |
|---|---|
| **Simon Pirotte** (tan 31 Gorffennaf 2025) | Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr |
| **James Owen** | Prif Swyddog Gweithredol |
| **Rhian Edwards** | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi |
| **Bethan Owen** (tan 7 Chwefror – swydd wag wedi hynny) | Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Chyllido |
| **Harriet Barnes** | Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Sgiliau |
| **Dr Ewen Brierley** | Cyfarwyddwr Rheoleiddio |
| **Giles Cutler** | Prif Swyddog Ariannol |
| **Geoff Hicks** | Cyfarwyddwr Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad |
| **Kieron Rees** (o 16 Rhagfyr 2024 ymlaen) | Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr |
| (Swydd wag) | Cyfarwyddwr Ystadegau a Dadansoddi |
| (Swydd wag) | Prif Swyddog Digidol |

# Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth strategol, yn hybu safonau cyllid cyhoeddus uchel, yn monitro perfformiad yn erbyn ein Cynllun Strategol ac yn sicrhau bod ein gweithgareddau'n cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol yn unol â'r gofynion ar gyfer cyrff hyd braich yng Nghymru.

Mae ein Bwrdd yn cynnwys ein Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd, a naw aelod cyffredin arall a oedd yn benodiadau cyhoeddus. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn aelod o'r Bwrdd. Y Prif Weithredwr yn ystod y cyfnod hwn oedd y cyntaf i gael ei benodi i'r swydd a hynny gan Weinidogion Cymru. Mae gennym hefyd bedwar aelod cyswllt o'r Bwrdd, sy'n cynrychioli ein gweithlu ni, y gweithlu addysg drydyddol yng Nghymru a dysgwyr yng Nghymru. Ni wnaeth unrhyw aelod o'r Bwrdd adael ei rôl yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'n ofynnol i aelodau ein Bwrdd ddilyn "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus 2019. Mae manylion y buddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Bwrdd ar gael yn Y Bwrdd a llywodraethu.

**Ar 31 Mawrth 2025, roedd y canlynol yn aelodau o Fwrdd Medr:**

## Aelodau Bwrdd

| Enw | Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd |
|---|---|---|
| **Yr Athro Fonesig Julie Lydon** Cadeirydd | Tymor cyntaf, 16 Ionawr 2023 i 15 Ionawr 2028 | 6 o 6 chyfarfod |
| **Yr Athro David Sweeney** Dirprwy Gadeirydd | Tymor cyntaf, 16 Ionawr 2023 i 15 Ionawr 2028 | 6 o 6 chyfarfod |
| **Simon Pirotte** Prif Weithredwr | | 6 o 6 chyfarfod |
| **Yr Athro Aaqil Ahmed** | Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 i 31 Awst 2027 | 6 o 6 chyfarfod |
| **Dr Gwenllian Lansdown Davies** | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 4 o 6 chyfarfod |
| **James Davies** | Tymor cyntaf, 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2027 | 6 o 6 chyfarfod |
| **Cerys Furlong** | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 3 o 6 chyfarfod |
| **Jeff Greenidge** | Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 i 31 Awst 2027 | 6 o 6 chyfarfod |
| **Rob Humphreys** | Tymor cyntaf, 1 Awst 2024 i 31 Gorffennaf 2027 | 5 o 6 chyfarfod |

| Enw | Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd |
|---|---|---|
| **Stephen Marston** | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 6 o 6 chyfarfod |
| **Yr Athro Chris Millward** | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 6 o 6 chyfarfod |
| **Jayne Woods** | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 6 o 6 chyfarfod |

## Aelodau Cyswllt[1]

| Enw | Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd |
|---|---|---|
| **Dan Beard** (yn cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol anacademaidd) | Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 i 31 Awst 2028 | 5 o 6 chyfarfod |
| **Estelle Hart** (yn cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol academaidd) | Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 i 31 Awst 2028 | 3 o 6 chyfarfod |
| **Deio Owen** (yn cynrychioli dysgwyr mewn addysg drydyddol) | Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 i 31 Awst 2028 | 5 o 6 chyfarfod |
| **Orla Tarn** (yn cynrychioli ein staff) | Tymor cyntaf, 9 Medi 2024 i 8 Medi 2027 | 4 o 6 chyfarfod |

Mae ein staff yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, fel y bo’n berthnasol i’r agenda, ond nid oes unrhyw sylwedyddion.

**Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu ein Bwrdd chwe gwaith ac fe drafododd ystod o faterion gan gynnwys:**

- Sefydlu strwythurau a dogfennaeth llywodraethu.
- Rheoli risg, parodrwydd i dderbyn risg a chofrestrau risg corfforaethol.
- Fersiynau drafft a therfynol o’n Cynllun Strategol i’w cyflwyno i Weinidogion Cymru.
- Trafodaethau ynghylch y gyllideb a oleuwyd gan y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Diweddariadau ar risgiau i ddarparwyr a’r sector gan gynnwys diweddariadau ar gynaliadwyedd ariannol a phrosesau ailstrwythuro darparwyr.

[1] Mae’r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn disgrifio rôl aelodau cyswllt o’r Bwrdd

- Dogfennaeth y bwriedid ymgynghori arni fel rhan o'r system reoleiddio newydd yng Nghymru gan gynnwys dogfennaeth a oedd yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol, llywodraethu, ymyrryd ac ansawdd.
- Cyngor cychwynnol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ynghylch ein dyletswyddau i hybu'r galw am, a chyfranogiad mewn, addysg drydyddol Gymreig a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Diweddariadau gan y Prif Weithredwr ym mhob cyfarfod.
- Diweddariadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau ym mhob cyfarfod a gynhaliwyd yn y cnawd ynghyd â chofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau lle'r oedd yn berthnasol.

Cyn 1 Awst, bu'r Bwrdd hefyd yn cwrdd i drafod y Cynllun Strategol, parodrwydd gweithredol a sefydlu strwythurau llywodraethu.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi cael sesiynau briffio rheolaidd ar feysydd polisi i oleuo cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol, i addysgu Bwrdd newydd am y cylch gwaith trydyddol eang a blaenoriaethau polisi cyfredol yng Nghymru.

Cefnogir ein Bwrdd trwy gyngor gan bum pwyllgor cynghori a grŵp gorchwyl a gorffen.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

### Aelodau Bwrdd Medr sydd ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:

| Enw | Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor |
|---|---|---|
| **Jayne Woods** (Cadeirydd) | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 4 o 4 cyfarfod |
| **Jeff Greenidge** (Dirprwy Gadeirydd)* | Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 i 31 Awst 2027 | 3 o 3 chyfarfod |
| **Rob Humphreys** | Tymor cyntaf, 1 Awst 2024 i 31 Gorffennaf 2027 | 3 o 4 cyfarfod |
| **Dr Gwenllian Lansdown Davies*** | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 1 o 1 cyfarfod |

* Ymunodd Jeff Greenidge â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o fis Tachwedd 2024, gan gymryd lle Dr Gwenllian Lansdown Davies a oedd wedi camu i lawr i gadeirio Pwyllgor Pobl a Diwylliant y Bwrdd

## Aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg*:

| Enw | Tymor yn y Rôl ar y Pwyllgor | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor |
|---|---|---|
| **Andrew Lewis** | Tymor cyntaf, 13 Mai 2024 i 12 Mai 2027 | 3 o 4 cyfarfod |
| **Martin Lewis** | Tymor cyntaf, 13 Mai 2024 i 12 Mai 2027 | 4 o 4 cyfarfod |

* Arferai ein haelodau annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod yn aelodau annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg CCAUC hefyd i gefnogi'r broses o drosglwyddo dyletswyddau o CCAUC i Medr.

Mae staff Medr yn mynychu'r Pwyllgor, fel y bo'n berthnasol i'r agenda, ac mae'r gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol yn arsylwi ar y cyfarfodydd.

Rôl ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu cynwysfawredd a dibynadwyedd sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth, ac uniondeb datganiadau ariannol a'r Cyfrifon Blynyddol. Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn goruchwylio gwaith sicrwydd ein darparwyr allanol. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith.

**Yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi rhoi sylw i'r canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:**

- Trafod risg gorfforaethol fel eitem sefydlog, gan gynnwys polisi rheoli risg newydd ar gyfer Medr a thrafodaeth ynghylch parodrwydd i dderbyn risg.
- Trefniadau archwilio mewnol ac allanol gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2024 a 31 Mawrth 2025.
- Cymeradwyo siarter archwilio mewnol, cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2024-25 a strategaeth archwilio mewnol.
- Cytuno ar bolisïau ariannol Medr gan gynnwys rheoliadau ariannol, polisi Atal Twyll a Llygredigaeth, cynllun dirprwyo mewnol, polisi caffael, a rhoddion, lletygarwch, gwobrwyon a ffioedd.
- Risgiau i sefydliadau yng Nghymru, gyda ffocws penodol ar risgiau i gynaliadwyedd ariannol a rheoli ariannol yng nghyd-destun prosesau ailstrwythuro darparwyr.
- Amodau Drafft ar gyfer y System Reoleiddio newydd a'r Datganiad Ymyrryd.
- Goruchwylio gwaith i gwblhau cyfrifon archwiliedig terfynol CCAUC ar gyfer 2023-24, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd.
- Cydymffurfio â'r ddogfen fframwaith rhwng Medr a Llywodraeth Cymru.
- Adrodd ar y Ddyletswydd Prevent.
- Ym mhob un o'i gyfarfodydd, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan y Cadeirydd ar faterion allweddol a drafodwyd gan Fwrdd Medr yn ei gyfarfod diweddaraf. Cafodd y Pwyllgor hefyd ddiweddariad ym mhob cyfarfod gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau ehangach mewn addysg drydyddol yng Nghymru.

# Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

## Aelodau Bwrdd Medr sydd ar y Pwyllgor Pobl a Diwylliant:

| Enw | Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor |
|---|---|---|
| **Dr Gwenllian Lansdown Davies** (Cadeirydd) | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 1 o 2 gyfarfod |
| **Yr Athro Aaqil Ahmed** | Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 i 31 Awst 2027 | 1 o 2 gyfarfod |
| **Cerys Furlong** | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 2 o 2 gyfarfod |
| **Yr Athro Fonesig Julie Lydon** | Tymor cyntaf, 16 Ionawr 2023 i 15 Ionawr 2028 | 2 o 2 gyfarfod |
| **Simon Pirotte** (Prif Weithredwr) | Amh. | 2 o 2 gyfarfod |
| **Orla Tarn** | Tymor cyntaf, 9 Medi 2024 i 8 Medi 2027 | 1 o 2 gyfarfod |

Nid oedd unrhyw aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn ystod 2024-25. Mae staff Medr yn mynychu'r Pwyllgor, fel y bo'n berthnasol i'r agenda, ond nid oes unrhyw sylwedyddion.

Rôl ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant yw goruchwylio'r strategaeth sy'n ymwneud â phobl a datblygu sefydliadol, llesiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn Medr. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith.

**Yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant wedi rhoi sylw i'r canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:**

- Cydnabyddiaeth ariannol uwch aelodau o staff.
- Aelodaeth annibynnol o'r Pwyllgor.
- Yr anghenion o ran data cydraddoldeb.
- Cwestiynau'r arolwg staff.

# Pwyllgor Ansawdd

## Aelodau Bwrdd Medr sydd ar y Pwyllgor Ansawdd:

| Enw | Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor |
|---|---|---|
| **Stephen Marston** (Cadeirydd) | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 4 o 4 cyfarfod |
| **Cerys Furlong** | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 3 o 4 cyfarfod |
| **Yr Athro Chris Millward** | Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 i 3 Medi 2026 | 4 o 4 cyfarfod |

## Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Ansawdd:

| Enw | Tymor yn y Rôl ar y Pwyllgor | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor |
|---|---|---|
| **Yr Athro Janice Kay** | 8 Mai 2024 i 7 Mai 2027 | 3 o 4 cyfarfod |
| **Yr Athro Clare Milsom** | 8 Mai 2024 i 7 Mai 2027 | 3 o 4 cyfarfod |
| **Bill Peaper** | 2 Rhagfyr 2024 i 1 Rhagfyr 2027 | 3 o 3 chyfarfod |
| **Deio Owen** | Yn unol â'r tymor fel Llywydd UCM Cymru | 4 o 4 cyfarfod |
| **Karen Phillips** | 13 Mai 2024 i 12 Mai 2027 | 2 o 4 cyfarfod |
| **Yr Athro Ian Robinson*** | 8 Mai 2024 i 7 Mai 2027 | 4 o 4 cyfarfod |
| **Andrew Thomas** | 8 Mai 2024 i 7 Mai 2027 | 2 o 4 cyfarfod |

* Arferai'r Athro Ian Robinson fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Ansawdd CCAUC i gefnogi'r broses o drosglwyddo dyletswyddau o CCAUC i Medr.

Mynychir y Pwyllgor Ansawdd gan staff Medr hefyd, fel y bo'n berthnasol i'r agenda, a sylwedyddion o sefydliadau partner, gan gynnwys Estyn, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith.

Rôl ein Pwyllgor Ansawdd yw cynghori'r Bwrdd ynghylch ansawdd yr holl addysg drydyddol a gyllidir neu a sicrheir fel arall gan Medr ac ynghylch dyletswyddau strategol Medr fel y maent yn ymwneud ag ansawdd, yn enwedig cyfle cyfartal, gan gynnwys cyfranogiad, cadw, a chyrhaeddiad myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; a hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor Ansawdd wedi rhoi sylw i'r canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:**

- Y Fframwaith Ansawdd ar gyfer addysg drydyddol a'r amod rheoleiddiol cysylltiedig.
- Ffyrdd i Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gydweithio.
- Gweithio mewn partneriaeth mewn addysg drydyddol gan gynnwys trefniadau dilysu ac isgontractio (breinio).
- Deilliannau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.
- Data ansawdd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol.
- Ystyriaethau cychwynnol ar gyfer cod ymgysylltu â dysgwyr.
- Ystyriaethau cychwynnol ar gyfer amod rheoleiddiol sy'n ymwneud â diogelu dysgwyr.

## Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi

### Aelodau Bwrdd Medr sydd ar y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi:

| Enw | Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor |
|---|---|---|
| **Yr Athro David Sweeney** (Cadeirydd) | Tymor cyntaf, 16 Ionawr 2023 i 15 Ionawr 2028 | 3 o 3 chyfarfod |
| **James Davies** | Tymor cyntaf, 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2027 | 2 o 3 chyfarfod |

## Aelodau annibynnol o’r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi:

| Enw | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Athro Rick Delbridge | 3 o 3 chyfarfod |
| Yr Athro Paul Spencer | 3 o 3 chyfarfod |
| Yr Athro Ian Mabbett | 1 o 2 gyfarfod |
| Dr David Lewis | 1 o 3 chyfarfod |
| Yana Williams | 3 o 3 chyfarfod |
| Yr Athro Reyer Zwiggelaar | 1 o 2 gyfarfod |
| Dr Emrys Evans | 1 o 3 chyfarfod |
| Yr Athro Roger Whitaker | 2 o 3 chyfarfod |
| Yr Athro Paul Boyle | 0 o 3 chyfarfod |
| Laura Gough | 0 o 3 chyfarfod |
| Sarah Cunningham | 3 o 3 chyfarfod |

Rôl ein Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yw cynghori ynghylch materion sy’n ymwneud â datblygu polisi mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi, a goruchwylio’r gwaith datblygu hwnnw. Cytunwyd ar gylch gorchwyl y Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mawrth 2025 cyn iddo gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Fodd bynnag, cyfarfu grŵp o aelodau’r Bwrdd ac aelodau allanol perthnasol deirgwaith i roi cymorth i ddatblygu’r Pwyllgor a’n gwaith yn y maes hwn. Aelodau o Bwyllgor Ymchwil Cymru CCAUC oedd yr aelodau allanol yn bennaf er mwyn rhoi cymorth i bontio’n esmwyth rhwng trefniadau. Fe gamodd yr Athro Ian Mabbett a’r Athro Reyer Zwiggelaar i lawr o’r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2024.

Mynychir y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi gan staff Medr hefyd, fel y bo’n berthnasol i’r agenda, a sylwedyddion o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â sefydliadau partner a chynrychiolaidd, gan gynnwys Ymchwil ac Arloesi DU (UKRI) a Chymdeithas Ddysgedig Cymru.

**Yn y cyd-destun hwn, trafodwyd y canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:**

- Cynllun Strategol Medr.
- Blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer ymchwil, arloesi ac ymgysylltu mewn cyd-destun trydyddol.
- Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil gan gynnwys:
  - Recriwtio i baneli cynghori ac asesu.
  - Peilot a dangosyddion Pobl, Diwylliant a'r Amgylchedd.
  - Cyfraniad i ganllawiau polisi Gwybodaeth a Dealltwriaeth (CKU).
  - Defnyddio data HESA ar gyfer mesurau maint.
- Cyfnod nesaf Rhwydwaith Arloesi Cymru.

## Pwyllgor Penodi Aelodau o Blith y Staff

Ar 16 Awst, gwahoddwyd Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS), ein hundeb cydnabyddedig, i enwebu ymgeisydd cymwys i gael ei benodi i fod yr Aelod Cyswllt o'r Bwrdd sy'n cynrychioli ein staff am gyfnod o hyd at dair blynedd. Ar 4 Medi, fe wnaeth Cangen PCS yn Medr enwebu Orla Tarn i'r rôl honno fel Aelod Cyswllt o'r Bwrdd.

Fe wnaeth y Pwyllgor Penodi Aelodau o Blith y Staff, sy'n cynnwys holl aelodau cyffredin y Bwrdd, gymeradwyo'r enwebiad ar 9 Medi 2024. Ar yr achlysur hwn fe'i cymeradwywyd trwy ohebiaeth i sicrhau ein bod yn cael penderfyniad mewn pryd ar gyfer cyfarfod cyntaf y Bwrdd ar ôl i ni ddod yn weithredol.

Nid yw'r Pwyllgor wedi cael unrhyw reswm i gwrdd ar unrhyw adeg bellach yn y cyfnod adrodd.

## Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoleiddio

Mae Medr hefyd wedi ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen bach i'w gynorthwyo i ddatblygu'r system reoleiddio newydd yng Nghymru. Nid pwyllgor ffurfiol mo hwn ond mae wedi bod yn hollbwysig i oruchwylio trefniadau llywodraethu'r gwaith arwyddocaol hwn.

Mae'r grŵp yn cael ei Gadeirio gan yr Athro Chris Millward ac mae aelod arall o'r Bwrdd, sef Jayne Woods (Cadeirydd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg), wedi ymuno ag ef ar y grŵp. Mae'r aelodau hyn o'r Bwrdd yn sicrhau cysondeb â'r oruchwyliaeth reoleiddiol gyfredol a gyflawnir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Ansawdd. Rhoddir cymorth allanol annibynnol i'r grŵp gan Amanda Hughes, yr Athro Helen O'Sullivan a Jack Smith.

## Pwerau deddfwriaethol

Cafodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022) gydsyniad brenhinol ar 8 Medi 2022. Mae Deddf 2022 yn rhoi pwerau i Medr gyllido a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Dim ond peth o Ddeddf 2022 oedd mewn grym yn ystod y cyfnod adrodd, gyda Medr yn cyllido ac yn rheoleiddio addysg drydyddol trwy bwerau a ddefnyddid yn flaenorol gan CCAUC a Llywodraeth Cymru. Nid yw Deddf 2022 wedi'i bwriadu i gymryd effaith lawn tan 2027/28 felly bydd trefniadau pontio'n parhau wrth

i Ddeddf 2022 gael ei chychwyn bob yn dipyn. Cafodd pwerau a etifeddwyd gan CCAUC i gyllido a rheoleiddio addysg uwch eu galluogi trwy bwerau dros dro a oedd yn ei gwneud yn bosibl gwneud addasiadau i ddeddfwriaeth bresennol. Yn ystod y cyfnod adrodd mae Medr hefyd wedi cael ei alluogi i gyllido rhannau eraill o'r sector addysg drydyddol trwy gytundeb asiantaeth dan adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Chwythu'r Chwiban

Mae Medr wedi sefydlu polisi a gweithdrefnau ategol ar gyfer chwythu'r chwiban. Craffwyd ar y rhain gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2024. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau yn eu lle i ddarparu arweiniad i aelod o staff Medr neu unrhyw gontractwr, cyflenwr, aelod o staff dros dro neu secondai, i hysbysu am unrhyw bryderon, naill ai yn y gweithle, neu yn allanol, sy'n ymwneud â pherygl, risg, camarfer neu gamwedd sy'n effeithio ar eraill. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau ar gael i'r holl staff ar y fewnrwyd. Maent hefyd i gyd yn rhan o'n Cod Ymddygiad y mae'n ofynnol i'r holl staff ymlynu wrtho. Ni hysbyswyd ynghylch unrhyw faterion chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod y mae'r Adroddiad hwn yn ymwneud ag ef.

## Rheoli Risg

Fe gyflwynodd Medr gofrestr risgiau cyn dod yn weithredol i ddechrau monitro risgiau o fewn y sefydliad. Roedd y risgiau hyn yn cael eu rheoli gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau presennol wedi'u hetifeddu gan CCAUC a Llywodraeth Cymru, y ddau ohonynt yn seiliedig ar Lyfr Oren Trysorlys EF. Cymeradwywyd polisi rheoli risg newydd gan ein Bwrdd ym mis Mawrth 2025, a hwnnw hefyd wedi cael ei ddrafftio yn seiliedig ar Lyfr Oren Trysorlys EF ac wedi bod yn destun gwaith craffu gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fel rhan o gymeradwyo'r polisi rheoli risg, fe gymeradwywyd ein parodrwydd i dderbyn risg yn seiliedig ar wahanol gategorïau o risg. Trafodwyd y parodrwydd i dderbyn risg gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chan y Bwrdd. Gan adlewyrchu mai sefydliad newydd ydym, cytunwyd y byddem yn adolygu ein parodrwydd i dderbyn risg ymhen 18 mis.

Mae risgiau sydd wedi cael eu rheoli yn ystod y cyfnod adrodd a chyn dod yn weithredol, yr adroddwyd arnynt wrth ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'n Bwrdd, yn ymwneud yn bennaf â Medr yn dod yn weithredol, y newid sylweddol i staff a phontio i drefniadau newydd ar gyfer cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Rydym wedi cytuno mai osgoi risg ac ansicrwydd yw'r amcan allweddol ym maes seiberddiogelwch. Fel sefydliad cwmwl rydym yn dilyn canllawiau'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac arfer gorau arall. Fe gyflawnom ni achrediad Cyber Essentials Plus ar 26 Mawrth 2025.

Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'n Bwrdd wedi bod yn trafod risgiau yn y sector addysg drydyddol hefyd, yn bennaf mewn perthynas ag iechyd ariannol. Er bod y rhain yn adlewyrchu risgiau i ddarparwyr, myfyriom ynghylch sut y gallai heriau i ddarparwyr adlewyrchu risgiau i ni, pe na baem yn cyflawni ein rôl oruchwylio'n effeithiol, neu risgiau i wireddu ein huchelgeisiau strategol. Cafodd rheolaethau i'n prosesau eu cryfhau yn dilyn y trafodaethau hyn.

## Rhyddid Gwybodaeth

Wedi i Medr ddod yn weithredol yn ffurfiol o 1 Awst 2024, cafodd 12 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25. Fe ymatebodd Medr i bob un o'r ceisiadau o fewn y terfyn amser o 20 niwrnod gwaith sy'n ofynnol gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

## Safonau'r Gymraeg

Nid ydym yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd ond rydym wedi bod mewn cyswllt â Chomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r camau i ni fel sefydliad. Rydym yn ymwybodol y byddwn yn dod o fewn cwmpas Safonau'r Gymraeg (rhif 6) ac rydym wedi bod yn gweithredu ar y sail honno, gyda golwg ar fod yn cydymffurfio pan fydd y Safonau'n cymryd effaith.

## Effeithiolrwydd Trefniadau Llywodraethu

Gan mai am gyfnod byr yr ydym wedi bod yn weithredol, ni chynhaliwyd unrhyw adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ond mae adolygiad mewnol o drefniadau llywodraethu, a oleuir gan adolygiadau o effeithiolrwydd mewn Pwyllgorau, i fod i gael ei gynnal yn ystod 2025-26.

Cafodd adolygiad cychwynnol o gydymffurfio â'r Ddogfen Fframwaith, a danategir gan God Llywodraethu Corfforaethol y DU, ei gynnal a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mawrth 2025. Ni wnaethom adnabod unrhyw fylchau yn ein prosesau a'n gweithdrefnau presennol, nac mewn paratoadau a oedd ar y gweill, i ddynodi na fyddwn yn gallu dangos ein bod yn ymdrin â'r holl ofynion allweddol yn y Ddogfen Fframwaith.

Nid oedd unrhyw wyriadau oddi wrth y Ddogfen Fframwaith.

## Rheolaethau Mewnol

Rydym yn gweithredu system o reolaethau mewnol sydd wedi'u bwriadu i: adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ein polisïau a'n hamcanion strategol; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n dod yn ffaith a'r effaith pe baent yn dod yn ffaith; a'u rheoli'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys rheolaethau a threfniadau sicrwydd mewn perthynas â sefydliadau sy'n cael ein cyllid ac yr ydym yn eu rheoleiddio.

Rydym wedi etifeddu trefniadau i oruchwylio cyllid a ddyrennir i darparwyr addysg drydyddol gan CCAUC a Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys ffurflenni data a chydymffurfio gan ddarparwyr, ac mae'r rhain yng nghyd-destun telerau ac amodau cyllid sefydledig, yn bennaf ar gyfer goruchwylio darpariaeth nad yw'n addysg uwch a threfniadau rheoleiddio sydd yn eu lle ar gyfer darpariaeth addysg uwch. Mae rhai o'r prosesau hyn wedi cael eu cryfhau wrth ymateb i'r heriau yn y sector addysg drydyddol.

Roedd rheolaethau allweddol ar gyfer ein system gyllid yn eu lle cyn i ni ddod yn weithredol ac maent wedi cael eu cryfhau trwy gymeradwyo polisïau ariannol newydd yn ystod y cyfnod adrodd.

Goleuwyd y cynlluniau archwilio mewnol ar gyfer 2024-25 i roi sicrwydd ynghylch y rheolaethau sydd gennym ac mae rheolaethau allweddol wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y cyfnod adrodd.

## Archwilio Mewnol

Cwmpesir Gwasanaeth Archwilio Mewnol Medr gan gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Mae arweinwyr archwilio mewnol yn mynychu pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae ganddynt fynediad at yr holl bapurau. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn Medr. Darperir y sicrwydd hwn gan yr Archwilydd Mewnol Arweiniol i'r Swyddog Cyfrifyddu a, thrwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, i'r Bwrdd.

Eleni fe wnaeth y Pwyllgor gymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol Medr, ynghyd â Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn.

**Roedd yr archwiliadau canlynol yn yr arfaeth ar gyfer 2024-25 ac fe'u cwblhawyd i gyd erbyn mis Mehefin 2025, gan gydnabod yr oedi cyn cychwyn y gweithgarwch arfaethedig a heriau o ran adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd:**

- Datblygu strategaeth.
- Y system daliadau.
- Trefniadau llywodraethu.
- Data.
- Seiberddiogelwch.

Adroddiad Blynyddol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25 oedd y gall y rheolwyr fod â sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a adolygwyd, wedi'u dylunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol. Nodwyd hyn yn ffurfiol gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Medr ar 3 Medi.

## Archwilio Allanol

Archwilio Cymru yw ein harchwilydd allanol ac mae'n mynychu pob un o gyfarfodydd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae ganddo fynediad at y papurau.

Yn ystod y cyfnod adrodd buom yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru i asesu i ba raddau yr ydym wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ein hamcanion llesiant. Ein hamcanion llesiant yw ein nodau strategol yn y Cynllun Strategol a gyhoeddwyd gennym. Bydd archwiliad dilynol i ganfod i ba raddau yr ydym wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni ein hamcanion llesiant yn digwydd yn ystod 2025-26 hefyd.

## Adrodd wrth Lywodraeth Cymru

Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â swyddogion yn Llywodraeth Cymru; mae ein prif berthynas trwy ein tîm partneriaeth yn y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol ond mae ein cyswllt â Llywodraeth Cymru'n rhychwantu cyfarwyddiaethau lluosog. Fe'n tywysir yn ein hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru gan Ddogfen Fframwaith a dogfen ffyrdd o weithio ategol. Mae'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn cael cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol ar gyfer bob yn ail gyfarfod o'r rhain. Fe wnaeth y cyfarfodydd hyn yn ystod y cyfnod adrodd drafod pontio gan Medr i ddod yn weithredol, datblygiad Cynllun Strategol cyntaf Medr, ymateb Medr i flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, risgiau i Medr a risgiau i'r sector addysg drydyddol a darparwyr yn y sector hwnnw.

## Darparu data a mewnwelediadau dadansoddi

Mae Medr wedi'i restru fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol trwy Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau yn nodi'r safonau y dylai cynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymrwymo iddynt. Mae ein hystadegau swyddogol yn cydymffurfio â thri chonglfaen y Cod – dibynadwyedd, ansawdd a gwerth.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data a'r pwynt casglu o hyd ar gyfer Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a'r Casgliad Data Ôl-16. Cesglir data addysg uwch ar ran Medr gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae HESA a Medr yn rheolyddion data ar y cyd ar gyfer y data.

Mae Medr yn cydweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, darparwyr HESA a chyllidwyr a rheoleiddwyr eraill y DU i sicrhau bod y data a gesglir wedi cael ei ddilysu, a'i fod yn gywir ac yn amserol.

Mae Medr yn cyflawni ystod o swyddogaethau gan ddefnyddio'r data yma gan gynnwys cyfrifo a monitro dyraniadau cyllid, at ddibenion polisi ac i gynhyrchu ystadegau swyddogol.

Mae ein Bwrdd wedi ystyried data sy'n ymwneud â'r ystod o ddarpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru a gwybodaeth ariannol. Cydnabyddir, fel sefydliad newydd a chorff sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r sector addysg drydyddol eang, bod gennym ddarn sylweddol o waith i'w wneud er mwyn i staff, ein Bwrdd a rhanddeiliaid gael data a dadansoddiadau wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion a chefnogi eu gwaith.

### Rydym wedi nodi'r ymrwymiadau canlynol yn ein Cynllun Strategol i ymdrin â'r gofynion hynny:

- Byddwn yn adolygu ac yn gwella sut yr ydym yn casglu data gan ddarparwyr i sicrhau bod gennym ddata o ansawdd da i roi cymorth i wneud penderfyniadau ynglŷn â rheoleiddio a pholisi ac i leihau baich diangen.
- Byddwn yn ymgynghori ynghylch dangosyddion perfformiad i hybu gwelliant parhaus.

- Byddwn yn pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer deilliannau a phrofiadau dysgwyr, gan gydnabod y bydd mesurau o lwyddiant a dangosyddion perfformiad yn amrywio gydag amgylchiadau dysgwyr, eu hanghenion ac mewn rhannau gwahanol o'r sector.
- Byddwn yn datblygu swyddogaeth ymchwil gymdeithasol ac yn gweithio yn unol â Chod Ymarfer Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth.

## Casgliad

Mae system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn y sefydliad am yr wyth mis hyd at 31 Mawrth 2025. Yr wyf wedi adolygu'r dystiolaeth a gallaf fod â sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a adolygwyd, wedi'u dylunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol.

**Simon Pirotte**
Prif Weithredwr (tan 31 Gorffennaf 2025)

Yn seiliedig ar y sicrwydd uchod gan y cyn-Brif Weithredwr, yr wyf wedi'i drafod gydag ef, ac o'm hadolygiad i fy hun o'r materion y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu hwn, yr wyf wedi fy argyhoeddi, am yr wyth mis hyd at 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon, bod fframwaith llywodraethu cadarn a system rheolaeth fewnol gadarn wedi bod yn eu lle i roi cymorth i gyrraedd nodau strategol a chyflawni dyletswyddau statudol Medr.

**James Owen**
Prif Weithredwr (o 1 Awst 2025)

17 Rhagfyr 2025

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 15 atodlen 1 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, wedi cyfarwyddo Medr i baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a hynny ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail groniadol a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Medr ac o'i incwm a'i wariant, ei Ddatganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'i lifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:**

- ymlynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu Medr. Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Medr, eu nodi yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i'm gwneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Medr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

**James Owen,** Prif Weithredwr

17 Rhagfyr 2025

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff

Dim ond yr adrannau hynny yn yr adroddiad â * ar eu pwys a gaiff eu harchwilio.

## Polisi cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cafodd cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd ei phennu gan Lywodraeth Cymru ac fe lywodraethwyd hynny gan Gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol i Gadeiryddion ac Aelodau o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff y GIG, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2004.

Yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Gweinidogion Cymru wnaeth benodi Prif Weithredwr cyntaf Medr a phennu ei gydnabyddiaeth ariannol. Nid yw'r gydnabyddiaeth ariannol a bennwyd yn un lle ceir dyfarniadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad na chyfraniadau pensiwn.

Pennwyd cydnabyddiaeth ariannol yn unol â'n cynllun cyflog a graddio cymeradwy. Roedd hyn yn berthnasol i'r holl benodiadau staff. Cafodd ein lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar y cyfan a'n cylch cyflog blynyddol, sy'n berthnasol i'r holl staff gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwyr, eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Daeth Medr yn weithredol ar 1 Awst 2024. Fe wnaeth cyflogeion o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r rhai o fewn y cwmpas o Lywodraeth Cymru drosglwyddo i Medr ar 1 Awst 2024 ac fe gawsant lythyrau'n cadarnhau'r newid hwn dan Ddatganiad o Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Drosglwyddiadau Staff yn y Sector Cyhoeddus (COSoP). Er mai'r gred oedd nad oedd y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) yn berthnasol yn gyfreithiol i'r trosglwyddiad hwn, fe gytunwyd gan yr holl bartïon, yn unol â COSoP, y dylid dilyn egwyddorion TUPE i sicrhau bod yr aelodau hynny o staff a oedd yn trosglwyddo'n cael yr un mesurau diogelu cyflogaeth â'r Rheoliadau TUPE ac nad oeddent yn cael eu trin yn llai ffafriol na phe bai'r Rheoliadau TUPE wedi bod yn berthnasol.

Cymeradwyir ein Cylch Cyflog gan Lywodraeth Cymru, a chyn ei gyflwyno mae'n rhaid iddo gael ei gytuno gan ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'n Bwrdd. Ar gyfer 2024-25 fe wnaeth ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'n Bwrdd gymeradwyo ein cais am gylch cyflog i'w gyflwyno ym mis Tachwedd 2024. Cafodd y cais a gymeradwywyd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru'n ddiweddarach y mis hwnnw a'i gymeradwyo gan y Gweinidogion erbyn diwedd mis Tachwedd 2024.

## Cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys cyflogau) a hawliau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr.

## Un ffigwr sy'n nodi cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Bwrdd ac uwch gyflogeion*

### Aelodau'r Bwrdd (gan gynnwys y Prif Weithredwr)

| Enw | Swydd | Cyflog 2024-25 £'000 | Buddion pensiwn 2024-25 cynnydd/ (gostyngiad) | Cyfanswm 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Yr Athro Fonesig Julie Lydon | Cadeirydd | 5-10 | Amh. | 5-10 |
| Yr Athro David Sweeney | Dirprwy Gadeirydd | 0-5 | Amh. | 0-5 |
| Simon Pirotte (a) | Prif Weithredwr | 130-135 | Amh. | 130-135 |
| Yr Athro Aaqil Ahmed | Aelod o'r Bwrdd | 0-5 | Amh. | 0-5 |
| Cerys Furlong | Aelod o'r Bwrdd | 0-5 | Amh. | 0-5 |
| Jeff Greenidge | Aelod o'r Bwrdd | 0-5 | Amh. | 0-5 |
| Rob Humphreys | Aelod o'r Bwrdd | 5-10 | Amh. | 5-10 |
| Dr Gwenllian Lansdown-Davies | Aelod o'r Bwrdd | 5-10 | Amh. | 5-10 |
| Stephen Marston | Aelod o'r Bwrdd | 5-10 | Amh. | 5-10 |
| Yr Athro Chris Millward | Aelod o'r Bwrdd | 5-10 | Amh. | 5-10 |
| Jayne Woods | Aelod o'r Bwrdd | 5-10 | Amh. | 5-10 |
| James Davies | Aelod o'r Bwrdd | 0-5 | Amh. | 0-5 |

(a) £195,000-£200,000 y flwyddyn yw cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy Simon Pirotte

## Uwch gyflogeion (heb gynnwys y Prif Weithredwr)

| Enw | Swydd | Cyflog 2024-25 £'000 | Buddion pensiwn 2024-25 cynnydd/ (gostyngiad) | Cyfanswm 2024-25 £'000 | Cyflog CagALl 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **James Owen** | Prif Swyddog Gweithredu | 75-80 | 123 | 200-205 | 115-120 |
| **Bethan Owen (b)** | Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Chyllido tan 7 Chwefror 2025 | 65-70 | 49 | 115-120 | 110-115 |
| **Rhian Edwards** | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi | 65-70 | 26 | 90-95 | 100-105 |
| **Giles Cutler (c)** | Prif Swyddog Ariannol o 1 Rhagfyr 2024 | 25-30 | 11 | 35-40 | 80-85 |
| **Harriet Barnes** | Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Sgiliau | 55-60 | 22 | 75-80 | 80-85 |
| **Kieron Rees (d)** | Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr o 16 Rhagfyr 2024 | 20-25 | Gweler (d) isod | Gweler (d) isod | 80-85 |
| **Geoff Hicks** | Cyfarwyddwr Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad | 50-55 | 20 | 70-75 | 75-80 |
| **Dr Ewen Brierley** | Cyfarwyddwr Rheoleiddio | 55-60 | 35 | 90-95 | 80-85 |

Diffinnir uwch gyflogeion fel y rhai sy'n rhan o'r Uwch Dîm Arwain.

Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na thaliadau bonws yn 2024-25. Mae'r ffigyrau a roddir yn rhai o 1 Awst 2024 i 31 Mawrth 2025, oni nodir yn wahanol. Caiff ffigyrau cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer uwch aelodau o staff eu datgan yn y tabl uchod.

(b) Fe ymddeolodd Bethan Owen o Medr ar 7 Chwefror 2025, mae ei chyflog cyfwerth ag amser llawn yn £110,000-£115,000, sy'n cynnwys cyflog o £105,000-£110,000 a lwfans pensiynadwy o £0-£5,000. O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth, mae swydd Bethan Owen yn dal i fod yn wag.

(c) Penodwyd Giles Cutler yn Brif Swyddog Ariannol ar ôl penodiad â chystadleuaeth allanol o 1 Rhagfyr 2024. Cyn ei benodi roedd Giles Cutler ar secondiad fel Prif Swyddog Ariannol o Lywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am dalu ei gyflog gyda Medr yn ad-dalu'r costau cyflogaeth llawn i Lywodraeth Cymru. Rhwng mis Awst 2024 a mis Tachwedd 2024 roedd ei gyflog gros yn £25,000-£30,000.

(d) Penodwyd Kieron Rees yn Gyfarwyddwr Profiad Dysgwyr ar ôl penodiad â chystadleuaeth allanol o 16 Rhagfyr 2024. Cyn y penodiad roedd y swydd yn wag. Mae Kieron Rees wedi dewis cyfrif pensiwn partneriaeth (trefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol) sy'n rhan o Legal & General Master-trust. Nid yw'r datgeliadau pensiwn ar gyfer Kieron Rees ar gael oherwydd yr oedi cyn sefydlu'r cyfrif pensiwn. Ar 1 Mai 2025 fe ymunodd Medr â'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Nid oedd y cynllun Partneriaeth wedi cael ei sefydlu pan sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar 1 Awst 2024, gan nad oedd aelodau o'r cynllun nes i Kieron Rees ymuno ym mis Rhagfyr 2024. Nid oedd modd i gyfraniadau a oedd yn gyfanswm o £2,608 tan 31 Mawrth 2025 gael eu talu yn y flwyddyn adrodd nes bod y cynllun wedi'i sefydlu'n derfynol ym mis Mai 2025. Mae'r cynllun bellach wedi cael ei sefydlu ac mae'r holl gyfraniadau sy'n ymwneud â blwyddyn adrodd 2024-25 wedi cael eu talu bellach ynghyd â'r data cysylltiedig cywir (gweler hefyd nodyn 18 ar y cyfrifon).

## Pensiynau uwch gyflogeion*

| Enw | Swydd | Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2025 £'000 | Cynnydd real mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2025 | CETV ar 31 Mawrth 2024 | Cynnydd real mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Simon Pirotte** | Prif Weithredwr | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **James Owen** | Prif Swyddog Gweithredu | 45-50 | 5-7.5 | 811 | 687 | 100 |
| **Bethan Owen** | Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Chyllido tan 7 Chwefror 2025 | 60-65 | 2.5-5 | 1301 | 1241 | 46 |
| **Rhian Edwards** | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi | 5-10 | 0-2.5 | 107 | 86 | 14 |
| **Giles Cutler** | Prif Swyddog Ariannol o 1 Rhagfyr 2024 | 20-25 | 0-2.5 | 419 | 409 | 6 |

| Enw | Swydd | Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2025 £'000 | Cynnydd real mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2025 | CETV ar 31 Mawrth 2024 | Cynnydd real mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Harriet Barnes** | Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Sgiliau | 5-10 | 0-2.5 | 88 | 72 | 12 |
| **Kieron Rees** | Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr o 16 Rhagfyr 2024 (gweler (d) uchod a nodyn 18 ar y cyfrifon) | Gweler (d) uchod | Gweler (d) uchod | Gweler (d) uchod | Gweler (d) uchod | Gweler (d) uchod |
| **Geoff Hicks** | Cyfarwyddwr Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad | 25-30 | 0-2.5 | 499 | 477 | 13 |
| **Dr Ewen Brierley** | Cyfarwyddwr Rheoleiddio | 35-40 | 0-2.5 | 796 | 740 | 30 |

## Datgeliadau cyflog a phensiwn*

Penodwyd y Prif Weithredwr gan Gweinidogion Cymru ar benodiad am gyfnod penodol. Mae gan yr holl Gyfarwyddwyr gontractau parhaol, ac mae cyfnod rhybudd o dri mis yn ofynnol. Ac eithrio'r posibilrwydd o daliad yn lle rhybuddion, nid oes unrhyw ddarpariaethau cytundebol penodol ar gyfer digolledu am derfynu'n gynnar. Fe wnaeth y Prif Weithredwr ddewis peidio ag ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ni wnaeth Medr unrhyw gyfraniadau pensiwn cyflogwr i bensiwn y Prif Weithredwr.

Nid yw'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac nid ydynt yn cael unrhyw fuddion pensiwn y telir amdanynt gan Medr.

Cyflogau/cydnabyddiaeth ariannol gros yw'r holl gyflogau/cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan na chafodd neb o aelodau'r Bwrdd nac uwch aelodau o staff unrhyw gydnabyddiaeth ariannol arall na buddion mewn nwyddau, ac eithrio fel a ddatgelir.

# Pensiynau

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), a rennir yn adrannau gwahanol – mae **classic, premium, a classic plus** yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bo **nuvos** yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Fe wnaeth yr holl weision sifil a benodwyd o'r newydd, a'r mwyafrif o'r rhai a oedd yn gwasanaethu eisoes, ymuno â'r cynllun newydd.

Cynlluniau statudol nas cyllidir yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac **alpha**. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, gan ddibynnu ar eu cyflog). Mae gweddill cost buddion a delir yn cael ei dalu ag arian y pleidleisir arno gan y Senedd Prydain bob blwyddyn. Mae pensiynau a delir yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn lle'r trefniadau buddion diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn â chyfraniad diffiniedig gyda chyfraniad cyflogwr, y cyfrif pensiwn **partneriaeth**.

Yn **alpha**, mae pensiwn yn cronni yn ôl cyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae'r cyfanswm a gronnir yn cael ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004. Cafodd buddion Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yr holl aelodau a newidiodd i **alpha** o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil eu 'bancio', gyda buddion y rhai â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan ydynt yn gadael **alpha**.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu dros oedran pensiwn arferol. 60 yw oedran pensiwn arferol ar gyfer aelodau'r cynlluniau **classic, premium a classic plus**, 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. Mae'r ffigyrau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd naill ai ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu yn **alpha** – fel y bo'n briodol. Os oes gan aelod fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a buddion yn **alpha**, mae'r ffigyrau'n dangos gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhannau cyfansoddol o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau presennol o gynllun yn wahanol yn seiliedig ar eu hoedran. Fe arhosodd aelodau hŷn o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod trefniadau trosiannol yng nghynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau ("dyfarniad McCloud").

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i gyflwyno rhwymedi am y diwygiadau hynny yn 2015,

gan wneud darpariaethau'r cynlluniau pensiwn yn deg i bob aelod. Mae dwy ran i'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus6. Fe wnaeth y rhan gyntaf gau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 31 Mawrth 2022, gyda'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o **alpha** o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethiad ar sail oedran am gyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, trwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i mewn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 1 Hydref 2023.

Mae'r buddion pensiwn cronedig, Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod a'r un ffigwr sy'n nodi cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol a nodir ar gyfer unrhyw unigolyn y mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus yn effeithio arno wedi cael eu cyfrifo yn seiliedig ar eu cynnwys ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithiwyd arnynt wedi cael eu symud yn ôl i mewn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am gyfnod y rhwymedi ac y bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn mynd ati'n weithredol i arfer ei hawl ar adeg ymddeol i benderfynu yn lle hynny ei fod yn cael buddion a gyfrifwyd dan delerau cynllun **alpha** am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal and General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol sydd rhwng 8% ac 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy er mwyn talu costau yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd salwch).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn wedi'i asesu'n actiwaraidd, a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, yw Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV). Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy o'r cynllun i briod dibynnol. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn cymhwyster uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigyrau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi eu trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnodd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes, a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Cynnydd real mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Pensiynau cydweddol (BBA)

Mae trefniant pensiwn BBA yn rhoi hawl i'r derbynnydd gael buddion sy'n debyg i'r rhai a ddarperir gan gynllun classic Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a ddisgrifiwyd uchod. Mae Medr yn gyfrifol am gyllido buddion pensiwn. Mae gan gyn-Gadeirydd Cyngor CCAUC, yr Athro Syr Roger Williams, bensiwn BBA.

## Datgeliadau Cyflog Teg*

| | Cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2025 £ |
|---|---|
| **Band yr aelod o staff â’r cyflog uchaf (cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol**)** | 195,000-200,000 |
| **Canolrif y cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol**** | 50,018 |
| Cymhareb | 3.9:1 |
| **25ain Ganran** | 38,030 |
| Cymhareb | 5.2:1 |
| **75ed Ganran** | 55,019 |
| Cymhareb | 3.6:1 |

** At ddibenion cyfrifo'r ‘aelod o staff â'r cyflog uchaf’ a ‘chanolrif y cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol’ uchod, mae ‘cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol’ yn cynnwys costau cyflogau yn unig. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r ‘buddion pensiwn’ blynyddol, a ddangosir uchod.

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol yr uwch gyflogai sydd â'r cyflog uchaf yn eu sefydliad a chanolrif cydnabyddiaeth ariannol, sef cydnabyddiaeth ariannol cyfwerth ag amser llawn yn y 25ain a’r 75ed ganran, staff y sefydliad. Roedd cydnabyddiaeth ariannol cyfwerth ag amser llawn yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 yn amrywio o £24,423 i £198,000.

Yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Gweinidogion Cymru wnaeth benodi Prif Weithredwr cyntaf Medr a phennu ei gydnabyddiaeth ariannol. Nid yw'r gydnabyddiaeth ariannol a bennwyd yn un lle ceir dyfarniadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad na chyfraniadau pensiwn.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, cafodd yr holl staff heb gynnwys y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu godiad cyflog o 3% ac fe gafodd rhai aelodau o staff godiadau cynyddrannol blynyddol hefyd, eto heb gynnwys y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu.

## Adroddiad staff

### Niferoedd y staff yn ôl categori

| | 31 Mawrth 2025 Nifer |
|---|---|
| **Uwch Reolwyr** | 8 |
| **Polisi** | 47 |
| **Rheoleiddio, Ystadegau a Gwasanaethau Corfforaethol**** | 58 |
| | **113** |

** Mae'n cynnwys tri aelod o staff sy'n cefnogi'r uwch reolwyr.

| | 31 Mawrth 2025 Nifer |
|---|---|
| **Staff â chontract cyflogaeth parhaol yn y DU gyda ni**** | 106 |
| **Aelodau eraill o staff a oedd yn gweithio ar ein hamcanion***** | 7 |
| | 113 |

** Mae'n cynnwys y Prif Weithredwr gan fod y penodiad am gyfnod penodol yn un am yn hwy na 12 mis.

*** O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025, mae saith aelod o staff ar secondiad i mewn o Lywodraeth Cymru, sy'n dal i fod yn gyfrifol am dalu eu cyflog. Mae Medr yn ad-dalu'r costau cyflogaeth llawn i Lywodraeth Cymru.

## Costau staff

### Dadansoddiad*

| | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 | | |
|---|---|---|---|
| | Staff £'000 | Bwrdd Gan Gynnwys y Prif Weithredwr £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Cyflogau** | 3,295 | 195 | 3,490 |
| **Costau nawdd cymdeithasol**** | 379 | 23 | 402 |
| **Costau pensiwn eraill** | 945 | 2 | 947 |
| | **4,619** | **220** | **4,839** |
| **Costau secondiadau i mewn i Medr** | 595 | | 595 |
| **Staff dros dro (ar y gyflogres)** | 22 | | 22 |
| **Cyfanswm costau'r gyflogres** | **5,236** | **220** | **5,456** |

** Mae'n cynnwys symiau sy'n daladwy am yr Ardoll Prentisiaethau.

Ar gyfer yr wyth mis hyd at 31 Mawrth 2025 roedd ein cyfraniadau cyflogwr o £944,613 yn daladwy yn eu cyfanrwydd i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a'r Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill yn ôl un gyfradd o 28.97%.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a adwaenir fel "Alpha" - yn gynlluniau buddion diffiniedig amlgyflogwr nas cyllidir, ond nid yw Medr yn gallu nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Fe wnaeth Actwari'r Cynllun brisio'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Ceir manylion ar gov.uk.

Fel arfer, bydd Actwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau gan y cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Caiff cyfraddau'r cyfraniadau eu pennu i dalu cost y buddion sy'n cronni yn ystod y cyfnod, sydd i'w talu pan fo'r aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i'r rhai sydd eisoes yn bensiynwyr.

Mae un o gyn-Gadeiryddion Cyngor CCAUC yn cael buddion pensiwn cydweddol (BBA) gyda Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r ddarpariaeth pensiwn BBA yn un nas cyllidir, gyda buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus ac yn cael eu gwarantu gan Medr. Trosglwyddodd y rhwymedigaeth hon i Medr pan ddiddymwyd CCAUC. Nid oes cronfa ac felly nid oes gwarged na diffyg nac asedau. Cyfrifir rhwymedigaethau'r cynllun ar gyfer gwasanaethau gan Adran Actwari'r Llywodraeth bob dwy flynedd, a gwnaed hyn ar ddiwedd 2024-25 a'r cyfanswm oedd £17,000 ar 31 Mawrth 2025; gweler nodyn 12 ar y cyfrifon ar dudalen 83.

## Niferoedd staff yn ôl rhyw

| | Ar 31 Mawrth 2025 Nifer |
|---|---:|
| **Dynion:** | |
| **Cyfarwyddwyr** | 6 |
| Staff | 37 |
| **Menywod:** | |
| Cyfarwyddwyr | 2 |
| Staff | 66 |
| **Cyfanswm** | **111** |

Nid oes canllawiau eglur ynghylch sut y caiff cyflogeion anneuaidd neu draws eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro i sicrhau ein bod yn adrodd dan drefniadau arfer gorau. Ar hyn o bryd, yr opsiynau yw naill ai peidio â chynnwys cyflogeion anneuaidd neu draws yn y cyfrifiadau, neu eu cofnodi yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd i Cyllid a Thollau EF a manylion hawl i weithio megis gwybodaeth basbort. I Medr, penderfynwyd peidio â chynnwys unrhyw gyflogeion nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn ddynion na menywod, nes bydd canllawiau eglur wedi cael eu darparu neu y bydd y drefn ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n ystyried gwahanol ryweddau.

## Absenoldeb oherwydd salwch

| | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---:|
| **Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch (%)** | 1.05% |
| **Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd** | 1.3 |
| **Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd** | 187.5 |
| **Bras amcan o gost y diwrnodau gwaith a gollwyd** | £39,677 |

Mae'r bras amcan o gost diwrnodau gwaith a gollwyd yn seiliedig ar gyflog staff ar radd rheolaeth ganol.

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

| | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £ |
|---|---|
| **Cyfreithiol**** | 6,574 |
| **Strategaeth***** | 21,982 |

** Cyngor cyfreithiol fel rhan o roi'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar waith ynghylch dynodi corff ansawdd a threfniadau asiantaeth A.83 gyda Llywodraeth Cymru.

*** Cyngor a roddwyd ynghylch datblygu Blaenoriaethau Strategol Medr gan swyddog y talwyd ffi iddynt ar y gyflogres.

## Cyflogi oddi ar y gyflogres

Ni fu unrhyw daliadau oddi ar y gyflogres i gyflogeion na staff dros dro.

## Pecynnau ymadael

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn ystod y flwyddyn.

## Polisïau a materion eraill sy'n ymwneud â staff

### Gweithgarwch ymgysylltu â chyflogeion a'r undeb llafur

Mae sesiynau briffio staff rheolaidd yn digwydd yn Medr dros Teams i sicrhau bod staff ledled Cymru'n gallu ymuno yn y cyfarfodydd. Mae Medr hefyd yn cyhoeddi crynodebau wythnosol trwy e-bost i'r staff cyfan sy'n cynnwys newyddion a diweddariadau.

Mae Medr yn cydnabod Undeb PCS fel ei undeb llafur ar gyfer staff, ac fe'i cynhwysir ac fe ymgynghorir ag ef yn rheolaidd. Mae Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol wedi cael ei sefydlu, y gall cynrychiolwyr staff sy'n aelodau o undeb PCS ei ddefnyddio i godi materion staff ac mae'r Fforwm hwn yn cwrdd yn rheolaidd.

Yn 2025-26 rydym yn bwriadu agor arolwg pobl i gasglu barn staff ynglŷn â Medr, ei ddiwylliant a'i ffyrdd o weithio. Bydd cwestiynau'n seiliedig ar rai o'r cwestiynau a gynhwysir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Bydd camau gweithredu sy'n codi o'r arolwg hwn yn cael eu dadansoddi a'u hadolygu gan yr Uwch Dîm Arwain, y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

### Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae Medr yn ymrwymedig i ddatblygu ei bolisi ac arfer ar amrywiaeth a chynhwysiant, gyda pholisi Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a pholisi Urddas yn y Gwaith yn eu lle, i sicrhau bod yr holl gyflogeion yn cael eu trin yn deg.

Mae ein dull recriwtio wedi golygu ein bod wedi ein hachredu fel cyflogwr sy'n "Hyderus o ran Anabledd", lle'r ydym yn cyflawni'r pum ymrwymiad mewn perthynas â recriwtio, hyfforddiant, cadw, ymgynghori ac ymwybyddiaeth o anabledd. Cafodd yr achrediad hwn ei asesu ym mis Gorffennaf 2024 ac mae'n ddilys tan fis Rhagfyr 2026. Yn unol â'r ymrwymiadau hyn, byddai unrhyw ymgeisydd sy'n datgan ei fod yn anabl, boed yn ymgeisydd mewnol neu allanol, yn cael cynnig cyfweliad os yw'n bodloni isafswm y gofynion.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer staff hefyd, lle y bo'n bosibl, oherwydd afiechyd neu nodwedd warchodedig. Gwneir y trefniadau hyn mewn trafodaeth rhwng y cyflogai, ei reolwr llinell a chydweithiwr ym maes Pobl a Diwylliant, neu gyflogai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb. Gallant yn aml gynnwys ein darparwr iechyd galwedigaethol trydydd parti hefyd ar gyfer cyngor arbenigol a diduedd.

### Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

| | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|
| **Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau** | +7.59% |
| **Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau** | +12.44% |

### Cyfran y dynion a menywod ym mand cyflog pob chwartel:

| Chwartel | | Nifer** | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|
| **Isaf** | D<br>M | 8<br>18 | 30.77%<br>69.23% |
| **Canol isaf** | D<br>M | 8<br>18 | 30.77%<br>69.23% |
| **Canol uchaf** | D<br>M | 11<br>15 | 42.31%<br>57.69% |
| **Uchaf** | D<br>M | 15<br>11 | 57.69%<br>42.31% |

** Nid yw'n cynnwys saith secondeion i mewn.

Nid oes canllawiau eglur ynghylch sut y caiff cyflogeion anneuaidd neu draws eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro i sicrhau ein bod yn adrodd dan drefniadau arfer gorau. Ar hyn o bryd, yr opsiynau yw naill ai peidio â chynnwys cyflogeion anneuaidd neu draws yn y cyfrifiadau, neu eu cofnodi yn seiliedig

ar yr wybodaeth a gyflwynwyd i Cyllid a Thollau EF a manylion hawl i weithio megis gwybodaeth basbort. I Medr, penderfynwyd peidio â chynnwys unrhyw gyflogeion nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn ddynion na menywod, nes bydd canllawiau eglur wedi cael eu darparu neu y bydd y drefn ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n ystyried gwahanol ryweddau.

### Meincnod

| | |
|---|---|
| **Canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau** | 13.5% |
| **Cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau** | 12.9% |

Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol – bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer yr holl swyddi cyflogeion yn y sector cyhoeddus, y DU, 2024
DS: nid oes unrhyw ystadegau sy'n ymwneud â bonysau gan nad yw Medr yn talu bonysau

## Materion cymunedol a hawliau dynol

Mae Medr yn cynnig pum diwrnod o absenoldeb â thâl y flwyddyn i staff wirfoddoli a chefnogi elusennau neu grwpiau cymunedol lleol. Rhoddir anogaeth i wneud hyn fel unigolion, timau, neu ar draws Medr.

Mae Pwyllgor Cymdeithasol Medr wedi cynnal digwyddiadau elusennol, megis arwerthiannau pobi cacennau, ac mae cydweithwyr yn cynnal digwyddiadau codi arian i gefnogi achosion da, rhywbeth a gefnogir yn y sefydliad.

Rydym yn ymgorffori egwyddorion Hawliau Dynol yn ein polisi ac arferion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac mae ein polisi ar Urddas yn y Gwaith wedi'i fwriadu i sicrhau bod hawliau'r holl gyflogeion yn cael eu parchu.

## Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Mae Medr yn sicrhau bod ei ddyletswyddau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a materion amgylcheddol yn cael eu cyflawni, gan ddarparu amgylcheddau gweithio diogel ar gyfer staff. Wrth sefydlu Medr, mae wedi cynnal asesiadau risg adeiladau, asesiadau risg tân ac mae hefyd wedi sicrhau bod gan y pencadlys yng Nghaerdydd swyddogion cymorth cyntaf a wardeniaid tân hyfforddedig. Gan bod Medr yn denantiaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yng Nghaerdydd, mae perthynas gadarnhaol wedi cael ei sefydlu gyda chyfarfodydd mynych rhwng cyfleusterau ICC a'n Rheolwr Swyddfa.

Mae'r hybiau yn Aberystwyth, Cyffordd Llandudno, Merthyr Tudful ac Abertawe wedi'u lleoli yn adeiladau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am faterion iechyd a diogelwch lleol ac mae hyn yn cael ei gyfleu i staff fel rhan o'u trefniadau sefydlu.

Ar gyfer pencadlys Medr yng Nghaerdydd, mae'r holl gyflogeion newydd yn cael hyfforddiant sefydlu ar yr adeilad yn eu hwythnos gyntaf, ac mae'r trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch yn cael eu cyfleu'n glir. Efelychir hyn yn yr hybiau, a chyflogeion Llywodraeth Cymru sy'n cynnal yr hyfforddiant sefydlu hwn.

## Datblygu, cymorth a llesiant staff

Mae Medr yn annog staff i ddatblygu, dysgu a rhwydweithio yn unol â'i werthoedd craidd. Anogir cyflogeion i berchnogi eu datblygiad ac mae'r Uwch Dîm Arwain yn gweithredu dull agored o drefnu unrhyw anghenion dysgu neu ddatblygu wrth i Medr dyfu fel sefydliad. Bydd ffocws cryf ar hyn yn ystod 2025-26.

Mae Medr yn gweithredu sesiynau "Dod i adnabod eich Medr" mynych i staff ddysgu oddi wrth ei gilydd, ac mae ein diwrnodau datblygu staff yn canolbwyntio ar feithrin gwybodaeth a phrofiad ar y cyd.

Mae gan gyflogeion fynediad at Raglen Cynorthwyo Cyflogeion, sy'n darparu mynediad at gyngor a chwnsela 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r adnodd ar gael dros y ffôn, ar wefan ac fel cymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol, ac mae'n hyrwyddo ffitrwydd, ffordd iach o fyw ac yn rhoi cymorth gydag iechyd meddwl.

Mae Medr yn gweithredu awr llesiant, sy'n caniatáu i staff gymryd un awr, pro-rata, yr wythnos, yn ystod y diwrnod gwaith i wneud gweithgaredd sydd o fudd i'w hiechyd a'u llesiant.

Ochr yn ochr â'r uchod, mae nifer o bolisïau sy'n seiliedig ar iechyd a llesiant yn eu lle, megis gweithio hyblyg, absenoldeb arbennig, pasbortau addasiadau yn y gweithle, a llawer o adnoddau llesiant ar ein mewnrwyd i gefnogi staff.

## Datganiadau trosglwyddo'r awenau gan y Swyddogion Cyfrifyddu

Mae system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn y sefydliad am yr wyth mis hyd at 31 Mawrth 2025. Yr wyf wedi adolygu'r dystiolaeth a gallaf fod â sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a adolygwyd, wedi'u dylunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol.

**Simon Pirotte,** Prif Weithredwr (tan 31 Gorffennaf 2025)

Yn seiliedig ar y sicrwydd uchod gan y cyn-Brif Weithredwr, yr wyf wedi'i drafod gydag ef, ac o'm hadolygiad i fy hun o'r materion y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu hwn, yr wyf wedi fy argyhoeddi, am yr wyth mis hyd at 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon bod fframwaith llywodraethu cadarn a system rheolaeth fewnol gadarn wedi bod yn eu lle.

**James Owen,** Prif Weithredwr (o 1 Awst 2025)

17 Rhagfyr 2025

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd.

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Medr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 dan darpariaethau adran 139 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o wariant net cynhwysfawr, y Datganiad o'r sefyllfa ariannol, y Datganiad o lif arian, y Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

**Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:**

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Medr ar 31 Mawrth 2025 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Medr ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain.

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei cham ddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i cham ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

**Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:**

- mae’r rhannau o’r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022; ac
- mae’r wybodaeth a roddir yn y Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy’n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw’r datganiadau ariannol a’r rhan o’r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o’r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i’w harchwilio yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw’r Datganiad Llywodraethu’n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy’n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â’r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi’i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a’r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;

- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Medr i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Medr yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

### Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Medr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Medr sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: wrthwneud rheolaethau gan reolwyr;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Medr, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Medr yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Medr;
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

**Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:**

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Medr, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Medr sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw gwaith cynnal gwefan Medr a hygrededd y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn, ac yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu gwneud i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

## Datganiad gwariant net cynhwysfawr
### am yr 8 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | 2024 – 2025 | |
|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **8 mis tan 31 Mawrth 2025 £'000** |
| **Gwariant** | | |
| ***Cyllido addysg drydyddol:*** | | |
| Gwariant cylchol | 3 | 650,425 |
| Gwariant cyfalaf | 3 | 31,524 |
| Dibenion eraill | 3 | 4,478 |
| | | **686,427** |
| ***Gwariant gweithredu Medr:*** | | |
| Costau staff | | 5,456 |
| Dibrisiant | 7 | 62 |
| Amorteiddiad | 8 | 212 |
| Dibrisiant ased hawl-i-ddefnyddio | 13 | 133 |
| Gwariannau eraill | 6 | 958 |
| | | **6,821** |
| **Cyfanswm gwariant** | | **(693,248)** |
| **Incwm** | | |
| Incwm o weithgareddau | 2 | 4,506 |
| **Costau gweithredu net** | | **(688,742)** |
| Llog IFRS 16 | 14 | (23) |
| **Costau gweithredu net wedi'u trosglwyddo i ecwiti trethdalwyr** | | **(688,765)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 74 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn. Mae'r holl weithgareddau'n parhau. Dangosir manylion costau staff ar dudalen 59 fel rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 17 Rhagfyr 2025.

## Datganiad o'r sefyllfa ariannol

### ar 31 Mawrth 2025

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 7 | 393 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 741 |
| Ased hawl-i-ddefnyddio | 13 | 649 |
| ***Cyfanswm asedau anghyfredol*** | | **1,783** |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Symiau masnach a derbyniadwy eraill | 9 | 273 |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 10 | 7,765 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | **8,038** |
| **Cyfanswm asedau** | | **9,821** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Symiau masnach a thaladwy eraill | 11 | (700) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau o fewn un flwyddyn | 12 | (1) |
| ***Cyfanswm asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net*** | | **9,120** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ôl un flwyddyn | 12 | (16) |
| Rhwymedigaeth IFRS 16 lesoedd | 14 | (660) |
| **Asedau namyn rhwymedigaethau** | | 8,444 |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | |
| Cronfa gyffredinol | | 8,444 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 74 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn. "Fe wnaeth y Swyddog Cyfrifyddu awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 17 Rhagfyr 2025..

**James Owen,** Prif Weithredwr
17 Rhagfyr 2025

## Datganiad llifoedd arian parod

### ar gyfer yr 8 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | Nodiadau | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | |
| Costau gweithredu net cyn llog | | (688,742) |
| Taliadau dibrisiant | 7 | 62 |
| Taliadau amorteiddiad | 8 | 212 |
| Dibrisiant ar ased hawl-i-ddefnyddio | 13 | 133 |
| Cynnydd mewn symiau masnach ac eraill derbyniadwy sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | | (47) |
| Cynnydd mewn symiau masnach ac eraill taladwy | | 218 |
| Symudiad mewn darpariaethau | | 1 |
| **All-lifoedd arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(688,163)** |
| **Llifoedd arian parod o adenillion ar fuddsoddiadau ac ad-daliadau cyllid** | | |
| Llog IFRS 16 a dalwyd | 14 | (23) |
| **Llifoedd arian parod net o adenillion ar fuddsoddiadau ac ad-daliadau cyllid** | | **(23)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Lesio adeiladau | 13 | (782) |
| Prynu asedau sefydlog anniriaethol | 8 | (80) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(862)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | |
| Rhwymedigaeth IFRS 16 Lesoedd | 14 | 660 |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 692,256 |
| **Llifoedd arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **692,916** |
| **Cynnydd net mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod** | | **3,868** |

| | Nodiadau | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 10 | 3,897 |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 10 | (7,765) |
| **Cynnydd net mewn arian parod** | | **3,868** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 74 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn. Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 17 Rhagfyr 2025.

## Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr

### ar gyfer yr 8 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | Cronfa Gyffredinol 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 1 Awst 2024** | **4,953** |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2024-25** | |
| Costau gweithredu net | (688,765) |
| **Cyfanswm incwm a threuliau cydnabyddedig ar gyfer 2024-25** | **(688,765)** |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 692,256 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **8,444** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 74 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Fe wnaeth y Swyddog Cyfrifyddu awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 17 December 2025.

# Nodiadau ar y cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### (a) Sail gyfrifyddu

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi yn unol â chyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, gan arfer pwerau a roddwyd gan baragraff 15, Atodlen 1 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y tybir ei fod yr un mwyaf priodol i'n hamgylchiadau ni at ddiben rhoi darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Caiff y polisïau a fabwysiadwyd gennym ni eu disgrifio isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd sydd wedi'u cyhoeddi ond heb ddod i rym eto a fyddai'n cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi cael eu cymhwyso yn y cyfnod adrodd hwn.

### (b) Cyllid

Ceir cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i gyllido gweithgareddau refeniw cyffredinol. Caiff y swm yma o gymorth grant ei ystyried yn gyllido ac fe'i credydir i'r gronfa gyffredinol pan fo'n dod i law.

### (c) Grantiau taladwy

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi ar sail blwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth, ond caiff grantiau sy'n daladwy eu talu ar sail blwyddyn academaidd hyd at 31 Gorffennaf. Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r derbynnydd yn cyflawni'r gweithgaredd ynddo, sy'n creu hawl. Caiff y grantiau hynny sy'n gylchol eu natur, yn bennaf y cyllid cylchol a ddarperir i ddarparwyr addysg bellach ac uwch, eu dwyn i gyfrif wrth dalu. Mae'r driniaeth hon, ym mhob ffordd berthnasol, yn sicrhau cyfatebiaeth rhwng cyllid grant a ddygir i gyfrif a'r patrwm o weithgarwch ariannol yn y darparwyr addysg bellach ac uwch.

### (d) Grantiau ad-daladwy

Mae grantiau ad-daladwy'n gyllid a ddarperir i ddarparwyr yn unigol i gefnogi costau cychwynnol prosiectau penodol, a gaiff eu hadfer fel rheol trwy addasiad i'w cyllid yn y dyfodol.

### (e) Costau pensiwn

Mae cyflogeion blaenorol a phresennol wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau trefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Grant i Weision Sifil ac Eraill (CSOPS).

Rydym yn cydnabod cost ddisgwyliedig darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan ydym yn cael budd o wasanaethau cyflogeion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnol i drefniadau'r ddau gynllun pensiwn. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn dâl a godir ar drefniadau'r ddau gynllun.

Mae un o gyn-Gadeiryddion CCAUC wedi'i gynnwys o dan gynllun pensiwn sy'n cyfateb i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r rhwymedigaeth wedi trosglwyddo i Medr fel y sefydliad a olynodd CCAUC. Rydym yn gwneud taliadau i'r cyn-Gadeirydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Fodd bynnag, cydnabyddir cost ddisgwyliedig darparu'r pensiwn trwy gronni darpariaeth ar gyfer rhwymedigaeth yn y dyfodol, gan ddefnyddio tybiaethau a aseswyd yn actiwaraidd.

### (f) Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff tir ac adeiladau lesddaliad eu dal yn ôl gwerth y farchnad agored ar gyfer defnydd presennol, yr eithriad yw eiddo o natur arbenigol a ddelir yn ôl cost amnewid ddibrisiedig. Caiff tir ac adeiladau lesddaliad eu prisio gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu'n flynyddol, gyda mynegeion yn y blynyddoedd rhwng hynny ar gyfer prisiadau nad ydynt yn flynyddol.

Caiff offer a chyfarpar (sy'n cynnwys technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau) eu prisio yn ôl cost hanesyddol. Gan bod gan y dosbarthiadau asedau hyn oes economaidd ddefnyddiol fer, dim ond am grocbris y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw dechnegau amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau asedau hyn. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £5000.

Cyfrifir dibrisiant ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased, gyda hynny'n adlewyrchiad realistig o ddefnydd yr ased (gweler isod). Codir tâl am flwyddyn lawn o ddibrisiant yn y flwyddyn y'i prynwyd, heb unrhyw dâl yn y flwyddyn y'i gwaredir. Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau anniriaethol ac asedau eiddo, cyfarpar ac offer eraill yn ôl rhandaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

Tir ac adeiladu lesddaliad – 5 i 15 mlynedd
Offer a Chyfarpar – 5 mlynedd
Technoleg gwybodaeth – 3 blynedd
Gosodiadau a ffitiadau – 5 mlynedd

Caiff unrhyw addasiadau i'r swyddfa sydd wedi'u cynnwys o fewn gosodiadau a ffitiadau eu hamorteiddio dros weddill cyfnod y les, o'r dyddiad prynu.

### (g) Asedau sefydlog anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd sy'n costio mwy na £5,000 eu cyfalafu.

Darperir amorteiddiad ar yr holl asedau sefydlog anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost pob ased ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ddangosir isod.
Codir tâl am flwyddyn lawn o amorteiddiad yn y flwyddyn y'i prynwyd.

Trwyddedau meddalwedd – 3 blynedd

### (h) Treth Ar Werth

Mae gweithgareddau Medr y tu allan i gwmpas TAW. Codir TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu fe gaiff ei chynnwys yn y gost prynu wedi'i chyfalafu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

### (i) Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 Lesoedd

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 Lesoedd yn disodli Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 17 Lesoedd ac mae mewn grym yn y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022. Mae'n darparu un model cyfrifyddu lesddeiliad ac yn ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad adnabod asedau hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaethau ar gyfer lesoedd â chyfnod o lai na 12 mis oni bai bod y gwerth sylfaenol yn isel.

### (j) Offerynnau ariannol

Asedau ariannol: Nid yw symiau masnach derbyniadwy'n dwyn unrhyw log ac fe'u datgenir yn ôl eu gwerth enwol fel y'u lleiheir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig. Arian parod yw arian parod yn y banc ar delerau mynediad-ar-unwaith.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw symiau masnach taladwy'n dwyn llog ac fe'u datgenir yn ôl eu gwerth enwol.

### (k) Adrodd cylchrannol

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cyfarwyddo cyrff cyhoeddus i ateb gofynion IFRS 8 i adrodd ar wybodaeth sy'n ymwneud â chylchrannau gweithredu lle bodlonir meini prawf o dan IFRS 8. Rydym ni o'r farn bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at un genhadaeth gan weithredu o fewn yr un amgylchedd busnes ac nad oes unrhyw gylchrannau gweithredu gwahanadwy. O ganlyniad, nid ydym yn adrodd yn ôl cylchrannau gweithredu.

### (l) Costau a secondiadau staff

Fel arfer mae cyflog unrhyw staff ar secondiad yn dal i gael ei dalu gennym ni. Pan ad-delir costau ar gyfer staff ar secondiad, caiff hynny ei netio yn erbyn costau staff yn y nodyn sydd wedi'i gynnwys o fewn yr Adroddiad Staff ar dudalen 59, sy'n rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd.

### (m) Trosglwyddo trwy ymgorffori

Fe wnaeth swyddogaethau a arferai gael eu cyflawni gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Llywodraeth Cymru drosglwyddo i Medr ar 1 Awst 2024. Diddymwyd CCAUC ar 31 Gorffennaf 2024. Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol mae trosglwyddo swyddogaethau o CCAUC a Llywodraeth Cymru i Medr yn cael ei drin fel trosglwyddo trwy ymgorffori. Mae symiau asedau net a gofnodwyd wedi cael eu dwyn i mewn i ddatganiadau ariannol Medr o 1 Awst 2024. Mae gwerth cario asedau net wedi cael ei gofnodi fel enillion nad ydynt yn enillion gweithredu o drosglwyddo swyddogaeth, trwy wariant net. Mae unrhyw gronfeydd wrth gefn ailbrisio a dibrisiant cronedig wedi cael eu trosglwyddo, gydag addasiadau cyfatebol i gronfa wrth gefn y gronfa gyffredinol.

Gan bod y swyddogaethau a gyflawnir gan Medr wedi'u hehangu o'i gymharu â'r rhai a gyflawnid gan CCAUC a Llywodraeth Cymru, barn Medr yw na ddylid darparu datgeliadau ychwanegol am berfformiad ariannol hanesyddol o ran y swyddogaethau a gyflawnid gan CCAUC gan nad yw hynny'n cyfrannu at ddealltwriaeth ddefnyddiol am berfformiad gweithredol Medr. Mae cyfrifon CCAUC am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Gorffennaf 2024 ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 2. Incwm o weithgareddau

| | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---:|
| **Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg – Cronfa Fuddsoddi Cyfalaf Ymchwil** | 4,478 |
| **Prevent** | 28 |
| | **4,506** |

Cyllid i roi cymorth i adrodd ar gydymffurfio â'r Ddyletswydd Prevent gan y sector addysg uwch yw cyllid Prevent.

## 3. Cyllido addysg drydyddol

| | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---:|
| **Cyllid craidd addysg uwch** | 121,966 |
| **Cyllid craidd addysg bellach** | 302,356 |
| **Cyllid craidd awdurdodau lleol** | 78,349 |
| **Cyllid strategol** | 33,576 |
| **Gradd-brentisiaethau** | 8,354 |
| **Lleoedd meddygol** | 3,967 |
| **Wedi'i glustnodi*** | 513 |
| **Cyfalaf** | 31,524 |
| **Prentisiaethau** | 110,705 |
| | **691,310** |
| **Adfachu**** | (9,362) |
| **Cronfa Fuddsoddi Cyfalaf Ymchwil***** | 4,478 |
| | **686,427** |

* Cyllid ar gyfer prentisiaethau iau.
** Gweler Nodyn 4.
*** Gweler Nodyn 5. Cyllid nad yw'n gymorth grant yw hwn.

Fe etifeddodd Medr ymrwymiadau cyllid o benderfyniadau blaenorol gan Weinidogion a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25 (o 1 Awst 2024 hyd at 31 Gorffennaf 2025).

## 4. Grantiau i ddarparwyr

Wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn mae grantiau i ddarparwyr addysg drydyddol, sy'n amodol ar gadarnhad archwilwyr allanol y derbynyddion eu bod wedi cael eu defnyddio at eu diben bwriadedig. Mae blwyddyn ariannol darparwyr yn dod i ben ar 31 Gorffennaf, ac unwaith y byddwn wedi cael eu cyfrifon archwiliedig, byddwn yn adolygu a oes angen unrhyw addasiadau i grantiau. Fe wnaeth adfachu cyllid addysgu sy'n seiliedig ar gredydau a chyllid prif ffrwd AB ar gyfer 2022/23 arwain at adfachu £9.362m. Bydd unrhyw addasiad sy'n deillio o gyfrifon 2024/25 a niferoedd myfyrwyr yn cael ei wneud gennym ni mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Rydym yn cadarnhau bod grantiau yr ydym wedi'u cael gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu defnyddio at eu dibenion cymeradwy.

## 5. Gwariant at ddibenion eraill

| | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---:|
| **Cronfa Fuddsoddi Cyfalaf Ymchwil*** | |
| Prifysgol Abertawe | 1,163 |
| Prifysgol Caerdydd | 2,339 |
| Prifysgol De Cymru | 114 |
| Prifysgol Bangor | 440 |
| Prifysgol Aberystwyth | 361 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 61 |
| | **4,478** |

* Cyllid nad yw'n gymorth grant.

## 6. Gwariannau eraill

| | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---:|
| **Costau gweinyddu** | |
| Costau adeiladau | 151 |
| Costau swyddfa | 41 |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | 112 |
| Cydnabyddiaeth ariannol archwilwyr | 52 |
| Costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd | 7 |
| Costau cyfarfodydd aelodau'r Bwrdd | 8 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 39 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â staff ar hyfforddiant, recriwtio a.y.b. | 63 |
| Costau technoleg gwybodaeth | 485 |
| **Cyfanswm** | **958** |

Archwilydd Cyffredinol Cymru oedd ein harchwilydd yn ystod y cyfnod.

## 7. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Offer technoleg gwybodaeth ar 31 Mawrth 2025 £'000 | Gosodiadau, ffitiadau ac offer ar 31 Mawrth 2025 £'000 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Awst 2024 | 344 | 464 | 808 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 |
| Ased a dderbyniwyd yn ôl | 0 | 0 | 0 |
| Gwarediadau | (71) | (5) | (76) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **273** | **459** | **732** |
| **Dibrisiant** | 343 | 10 | 353 |
| Ar 1 Awst 2024 | 1 | 61 | 62 |
| A godwyd yn ystod y cyfnod | 0 | 0 | 0 |
| Ased a dderbyniwyd yn ôl | 0 | 0 | 0 |
| Gwarediadau | (71) | (5) | (76) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **273** | **66** | **339** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025 | 0 | 393 | 393 |
| Gwerth llyfr net ar 1 Awst 2024 | 1 | 454 | 455 |
| **Cyllido asedau** | | | |
| Asedau a berchnogir | | | |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025 | 0 | 393 | 393 |

## 8. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Awst 2024 | 894 |
| Ychwanegiadau | 80 |
| Gwarediadau | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **973** |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Awst 2024 | 21 |
| A godwyd am y cyfnod | 212 |
| A ryddhawyd wrth waredu | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **233** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025 | 741 |
| Gwerth llyfr net ar 1 Awst 2024 | 872 |

## 9. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 271 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 2 |
| | **273** |
| **Balansau mewnlywodraethol** | |
| Cyrff llywodraeth ganolog eraill | 0 |
| Balansau gyda chyrff llywodraethol eraill | 0 |
| Balansau gyda chyrff anllywodraethol | 273 |
| | **273** |

## 10. Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|
| **Arian parod a ddelir dan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth** | |
| Balans ar 1 Awst 2024 | 3,897 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 3,868 |
| Balans ar 31 Mawrth 2025 | 7,765 |
| **Cyfanswm arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod** | **7,765** |

Gwasanaeth bancio ar draws y Llywodraeth gyfan a ddarperir gan y Royal Bank of Scotland (RBS) yw Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS). Nid ydym yn ennill unrhyw log ar unrhyw falans a ddelir yng nghyfrifon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

£3.897m oedd balans arian parod agoriadol Medr, a ddarparwyd gan falans arian parod cau CCAUC. Trosglwyddwyd hwn i Medr yn unol â'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r awenau ac yn dilyn cytundeb gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ddogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Medr gyfyngu i'r eithaf ar ei ddaliadau arian parod a pheidio â dal mwy ar ddiwedd y flwyddyn na 2% o gyfanswm y cymorth grant sydd ar gael. £7.765m oedd balans arian parod cau Medr, a oedd yn 1.12% o gyfanswm yr arian a oedd ar gael.

## 11. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | |
| Croniadau | 700 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | 0 |
| Mân gredydwyr | 0 |
| | **700** |
| **Balansau mewnlywodraethol** | |
| Cyrff llywodraeth ganolog | 186 |
| Cyrff llywodraeth ganolog eraill | 0 |
| Balansau gyda chyrff llywodraethol eraill | **186** |
| Balansau gyda chyrff anllywodraethol | 514 |
| | **700** |

## 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---:|
| Rhwymedigaeth pensiwn cydweddol* | |
| **Dadansoddiad o amseriad rhwymedigaeth** | |
| Yn dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn (2025-26) | 1,360 |
| Yn dod yn ddyledus rhwng 2026-27 a 2030-31 | 6,798 |
| Yn dod yn ddyledus rhwng 2031-32 a 2039-40 | 8,842 |
| | **17,000** |

* Gweler y nodyn ar Gostau Staff ar dudalen 59

## 13. Asedau hawl-i-ddefnyddio

| | Adeiladau ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---:|
| **Cost** | |
| Ar 1 Awst 2024 | 0 |
| Cydnabod ased dan IFRS 16 | 783 |
| Ychwanegiadau | 0 |
| Gwarediadau | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **783** |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Awst 2024 | 0 |
| A godwyd am y cyfnod | 133 |
| A ryddhawyd wrth waredu | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **133** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025 | 650 |
| Gwerth llyfr net ar 1 Awst 2024 | 0 |

## 14. Rhwymedigaethau lesoedd

| | Adeiladau ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---:|
| **Cost** | |
| Ar 1 Awst 2024 | 0 |
| Cydnabod ased dan IFRS 16 | 783 |
| Ychwanegiadau | 0 |
| Wedi'u had-dalu yn y flwyddyn | (146) |
| Llog a godwyd | 23 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **660** |
| **Dadansoddiad o amseriad y rhwymedigaeth** | |
| Yn dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn | 192 |
| Yn dod yn ddyledus yn hwyrach nag un flwyddyn ond yn ddim hwyrach na phum mlynedd | 468 |
| | **660** |

## 15. Ymrwymiadau ariannol a rhwymedigaethau digwyddiadol eraill

| | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---:|
| Dim hwyrach na blwyddyn | 393,941 |
| Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 41,111 |
| | **435,052** |

Yn y cyfnod adrodd, fe ddyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid i Medr ar sail blwyddyn ariannol o 1 Awst 2024 hyd at 31 Mawrth 2025. Mae gan Medr ofyniad i gwrdd â'r ymrwymiadau cyllid ar gyfer gweddill blwyddyn academaidd 2024/25 (o 1 Ebrill hyd at 31 Gorffennaf 2025) a osodwyd ar gyllideb Medr gan benderfyniadau blaenorol gan Weinidogion a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Ym mis Mawrth 2025, rhoddwyd manylion dyraniadau i Awdurdodau Lleol ar gyfer y 16 mis canlynol, tan ddiwedd y flwyddyn academaidd 2025/26. Mae'r rhain, ac unrhyw ymrwymiadau eraill ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26 neu'r flwyddyn academaidd 2025/26, wedi cael eu datgelu. Bydd Medr yn cyllido'r ymrwymiadau hyn trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 gan y Senedd, fe gadarnhaodd Llywodraeth Cymru ar 20 Mawrth 2025 mai £961.8m fyddai cyllideb Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

## 16. Partïon cysylltiedig

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Medr. Ystyrir bod Llywodraeth Cymru'n barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cafodd Medr amryw drafodion perthnasol gyda Llywodraeth Cymru, yr ystyrid mai hi yw'r rhiant-Adran.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth Medr, fel rhan arferol o'i fusnes, ymrwymo i'r trafodiadau canlynol gyda'r sefydliadau canlynol yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig:

| Enw | Perthynas â'r parti cysylltiedig |
|---|---|
| **Yr Athro Fonesig Julie Lydon** Cadeirydd | **Cymdeithas Ddysgedig Cymru** – Cymrawd Etholedig y Gymdeithas, Aelod o'r Pwyllgor Craffu ar gyfer Diwydiant, Masnach, y Celfyddydau a Phroffesiynau |
| **Yr Athro David Sweeney CBE** Aelod o'r Bwrdd | **The Conversation UK** – Bwrdd neu Fwrdd Cynghori |
| **Yr Athro Aaqil Ahmed** Aelod o'r Bwrdd | **Llywodraeth Cymru** – Aelod o'r Uwch Banel Annibynnol |
| **Cerys Furlong** Aelod o'r Bwrdd | **Ysgol Uwchradd Fitzalan** (Yn cael ei chyllido trwy Gyngor Sir Caerdydd) – Llywodraethwr Gwirfoddol |
| **Rob Humphreys CBE FLSW** Aelod o'r Bwrdd | **Cymdeithas Ddysgedig Cymru** – Un o Gymrodyr Etholedig y Gymdeithas, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar gyfer Diwydiant, Masnach, y Celfyddydau a Phroffesiynau |
| **James Davies** Aelod o'r Bwrdd | **Prifysgol Abertawe** – aelod o'i deulu estynedig yn Aelod o'r Bwrdd |
| **Dr Gwenllian Lansdown Davies** Aelod o'r Bwrdd | **Mudiad Meithrin** – Prif Weithredwr |
| **Estelle Hart** Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | **Undeb Prifysgolion a Cholegau yng Nghymru** – Sedd ar y pwyllgor gwaith cenedlaethol ac yn Gadeirydd |
| **Deio Owen** Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | **Gwasanaethau Elusennol Undebau Myfyrwyr UMC** – Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr |

Mae cyfanswm y cyllid* a gafodd pob un o'r sefydliadau a restrir uchod fel a ganlyn:

| Parti Cysylltiedig | 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|
| The Conversation UK | 38 |
| Llywodraeth Cymru | 654 |
| Cyngor Sir Caerdydd | 11,940 |
| Cymdeithas Ddysgedig Cymru | 237 |
| Prifysgol Abertawe | 29,352 |
| Undeb Prifysgolion a Cholegau yng Nghymru | 65 |
| Gwasanaethau Elusennol Undebau Myfyrwyr UMC | 77 |
| Mudiad Meithrin* | 0 |

* Mae'r symiau'n cynrychioli cyfanswm y cyllid a gafodd y sefydliadau ar sail arian parod.

** Nid yw Mudiad Meithrin yn cael cyllid yn uniongyrchol gan Medr ond gallai gael budd o gyllid gan Medr ar gyfer prentisiaethau gan eu bod yn hyfforddi ac yn cymhwyso unigolion i weithio mewn Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar trwy gynnig ystod o gymwysterau gan gynnwys prentisiaethau.

Yn ystod y flwyddyn nid oes unrhyw Aelod o'r Bwrdd nac uwch aelodau o staff na phartïon cysylltiedig eraill wedi cynnal unrhyw drafodiadau perthnasol gyda Medr.

Mae manylion y buddiannau a ddatganwyd gan Aelodau'r Bwrdd ar gael yn Y Bwrdd a llywodraethu.

## 17. Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7 a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 32 a 39 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gyflwyno a datgelu gwybodaeth am effaith bosibl offerynnau ariannol ar ei sefyllfa ariannol a'i berfformiad, ac ar ba mor agored ydyw i risg.

Risgiau o ran hylifedd – Yn yr 8 mis hyd at 31 Mawrth 2025, daeth £692.3 neu 99.4% o'n hincwm gan Lywodraeth Cymru. Daeth gweddill yr incwm, £4.5m neu 0.6%, o incwm o weithgareddau. Nid ydym yn ystyried bod ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd, ac rydym wedi ein hargyhoeddi bod incwm yn y dyfodol yn ddigon i gyflawni ein hymrwymiadau.

Risgiau o ran cyfraddau llog – Caiff balansau arian parod a dynnir i lawr o Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymiadau cyllido a chostau gweithredu eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Nid yw Medr yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

Risg o ran arian tramor – Nid yw ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.

Risg o ran llifoedd arian parod – Nid ydym yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llifoedd arian parod.

## 18. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ar 5 Mehefin 2025 cyhoeddodd Medr ei fod wedi penodi James Owen, Prif Swyddog Gweithredu Medr gynt, yn Brif Weithredwr newydd. Mae James Owen yn olynu'r Prif Weithredwr sy'n ymadael, Simon Pirotte. Bydd James Owen yn ymgymryd â'r rôl o 1 Awst 2025 ac fe'i penodwyd am gyfnod cychwynnol o 5 mlynedd.

Ar 1 Mai 2025 fe ymunodd Medr â'r cyfrif pensiwn partneriaeth (trefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol) sy'n rhan o Legal & General Mastertrust. Nid oedd y cynllun Partneriaeth wedi cael ei sefydlu pan sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar 1 Awst 2024, gan nad oedd aelodau o'r cynllun tan fis Rhagfyr 2024. Nid oedd modd talu cyfraniadau yn y flwyddyn adrodd nes bod y cynllun wedi'i sefydlu'n derfynol ym mis Mai 2025. Mae'r cynllun bellach wedi cael ei sefydlu ac mae'r holl gyfraniadau mewn perthynas â blwyddyn adrodd 2024-25 bellach wedi cael eu talu ynghyd â'r data cysylltiedig cywir. Mae Legal & General wedi penderfynu y byddai'r aelod wedi bod ar ei ennill o £10.98 pe bai'r cyfraniadau wedi cael eu talu ar amser. Gan hynny, ceir rhwymedigaeth fach o £10.98 i Medr. Bydd y rhwymedigaeth hon sydd wedi dod yn ffaith yn cael ei chynnwys yng Nghyfrifon 2025/26.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

info@medr.cymru
medr.cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government